Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 15fed Ionawr, 2019 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH |
| **PWYNT CYSWLLT** | Annes Siôn<br>01286 679490<br>cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfrig L. Siencyn | Arweinydd |
| Dafydd Meurig | Dirprwy Arweinydd, Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant |
| Gareth Wyn Griffith | Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol |
| Nia Wyn Jeffreys | Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol |
| Peredur Jenkins | Aelod Cabinet Cyllid |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| W. Gareth Roberts | Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Addysg |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 18 RHAGFYR | | | 4 - 9 |
| 6 | CYNLLUN GWYNEDD 2018-2023 - ADNODD I'R CYNLLUN 'CYNYDDU BUDD DIGWYDDIADAU MAWRION' | Cyng. Ioan Thomas | Roland Evans | 10 - 15 |
| 7 | ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS AMGYLCHEDD | Cyng. Dafydd Meurig | Dilwyn Williams | 16 - 49 |
| 8 | ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS BRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL AC YMGYNGHORIAETH | Cyng. Gareth Griffith | Dilwyn Williams | 50 - 58 |
| 9 | BLAENRAGLEN Y CABINET | Cyng. Dyfrig Siencyn | | 59 - 60 |

**Y CABINET DYDD MAWRTH, 18 RHAGFYR 2018**

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig L. Siencyn, Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Gareth Wyn Griffith, Nia Wyn Jeffreys, Peredur Jenkins, Dilwyn Morgan, W Gareth Roberts, Ioan Thomas a Gareth Thomas

**Hefyd yn bresennol-**
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid) ac Annes Siôn (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**Eraill a wahoddwyd:**

Eitem 6: Llinos Edwards (Uwch Swyddog Gweithredol)
Eitem 7: Garem Jackson (Pennaeth Adran Addysg)
Eitem 8: Robin Evans (Rheolwr Prosiect)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.
Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**3. MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw fater brys.

**4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu.

**5. COFNODION CYFARFODYDD A GYNHALIWYD AR 27 TACHWEDD**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfodydd y Cabinet a gynhaliwyd ar y 27ain o Dachwedd fel rhai cywir

**6. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PANEL STRATEGOL DIOGELU**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dilwyn Morgan

**PENDERFYNWYD**

Derbyn yr adroddiad ar waith y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion, a derbyn yr addasiadau i Gylch Gorchwyl y Panel.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn ddiweddariad ar beth sydd wedi ei gyflawni gan y Panel Strategol Diogelu yn ystod 2017/18. Ategwyd fod yr adroddiad yn crynhoi'r gwaith yn gywir a theg, gan nodi ei bod yn hanfodol bod yr aelodau Cabinet yn ymwybodol o waith y Panel ac yn gallu bodoli fod y Panel wedi ymgymryd â'r gwaith sydd ei angen yn drylwyr a chydwybodol.

Mynegwyd fod Perfformiad Diogelu Gwynedd yn dda iawn, ac mae hyn wedi ei bwysleisio mewn adroddiad allanol a gafwyd o'r adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn ddiweddar. Ychwanegwyd fod y panel wedi ehangu ei ffocws yn ddiweddar i gynnwys materion Diogelwch ehangach megis Trais yn y Cartref a materion gwrth derfysgaeth. O ganlyniad i hyn, nodwyd, fod angen addasu'r Cylch Gorchwyl y Panel er mwyn adlewyrchu'r addasiadau. Nodwyd fod y Cylch Gorchwyl yn ogystal yn amlygu cyfrifoldeb y Panel i fonitro ac i herio perfformiad sydd yn ymwneud a'r maes Diogelu.

Diolchwyd i aelodau'r Panel Gweithredol Diogelu am eu gwaith o sicrhau diogelwch o ddydd i ddydd.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Trafodwyd Caethwasiaeth Fodern gan nodi fod 3 achos wedi bod yng Ngwynedd, a gofynnwyd am enghraifft o'r math o'r achosion sydd wedi codi. Nodwyd enghraifft o weithiwr mewn lleoliad gwaith nad yw eisiau bod yno ac nad ydyw yn cael ei dalu am ei lafur. Ychwanegwyd ei fod yn faes sydd yn addasu yn aml a bod angen i'r Cyngor fod yn ymwybodol o beth sydd yn digwydd. Mynegwyd mai'r her fwyaf yw cadw ffocws ac i fod yn rhagweithiol.
- Mynegwyd fod gwaith da yn cael ei wneud o ran diogelu plant, ac mae'r cylch gorchwyl yn galluogi staff i fod yn ymwybodol o ba arwyddion sydd angen cadw golwg amdanynt.
- Tynnwyd sylw ar hyfforddiant Trais yn erbyn Menywod, cam-drin domestig a Thrais Rhywiol gan nodi mai dim ond 50% o'r hyfforddiant sydd wedi ei gwblhau erbyn diwedd 2017. Ychwanegwyd fod hyn oherwydd nad oedd safon iaith Gymraeg y deunyddiau dysgu sydd yn cael eu cynnig gan Lywodraeth Cymru yn ddigonol. Mynegwyd fod angen i'r Llywodraeth roi blaenoriaeth i'r Gymraeg yn enwedig mewn hyfforddiant mewn pynciau mor bwysig. Ategwyd fod Cyngor Gwynedd yn gweithio gyda'r Llywodraeth er mwyn ceisio goresgyn y rhwystrau.

## 7. EGWYDDORION ADDYSG ADDAS I BWRPAS

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Gareth Thomas

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwyo i'r egwyddorion addysg addas i bwrpas canlynol fydd yn sail ar gyfer gwireddu gweledigaeth yr Adran Addysg a datblygu'r gyfundrefn er sicrhau addysg o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc Gwynedd ar gyfer yr unfed ganrif ar

hugain, sef:

- Cyfundrefn o ysgolion uwchradd hyfyw
- Dim mwy na dau ystod oedran o fewn yr un dosbarth yn y cynradd
- Oddeutu 80% o amser digyswllt i'r Pennaeth i ganolbwyntio ar faterion arweinyddiaeth yn y cynradd.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn cydnabod mai arweinyddiaeth gadarn yw sail dda addysg plant. Ychwanegwyd yn dilyn adroddiad y Ffederasiwn Cynradd, sydd yn cynnwys Penaethiaid Ysgolion Cynradd, a oedd yn codi sawl mater fod yr Adran Addysg wedi ail edrych ar amodau addysg.

Nodwyd fod adroddiad wedi dod ger bron y Cabinet yn ystod Gorffennaf 2016, a roddwyd caniatâd i'r Adran Addysg ymgynghori a Llywodraethwyr ysgolion a budd-ddeiliad ehangach am addasrwydd yr egwyddorion. Mynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad fod materion wedi codi ynglŷn ag amodau Arweinyddiaeth y rhai a nodi'r isod:

- bod nifer o'n hysgolion uwchradd a chynradd yn rhy fach i allu cynnig digon o amser i benaethiaid, uwch reolwyr a rheolwyr canol arwain yn effeithiol;
- y gofynion sy'n gwrthdaro ar lawer o benaethiaid cynradd ble mae ganddynt hefyd ymrwymiad sylweddol i addysgu dosbarthiadau ochr yn ochr â'u swyddogaethau rheoli ac arwain;
- anawsterau o ran recriwtio arweinwyr uwch reolaeth a rheolwyr canol mewn ysgolion uwchradd;
- anawsterau o ran recriwtio penaethiaid ar gyfer ysgolion cynradd;
- diffyg ymgeiswyr o'r tu allan i ardal yr awdurdod lleol.

O ganlyniad, datblygwyd egwyddorion sydd yn cefnogi cyfundrefn addas i bwrpas a gyflawnwyd i'r Cabinet. Mynegwyd eu bod yn anodd gwneud newidiadau eang yn syth o ganlyniad i gyllidebau, ond bydd yr egwyddorion yn sail i newidiadau'r dyfodol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd pwysigrwydd ymgynghori a bod yr egwyddorion wedi deillio gan Benaethiaid. Pwysleisiwyd ei bod yn anodd yn y Cynradd ac Uwchradd i gael Penaethiaid gan fod y gofyn yn rhai ysgolion iddynt ddysgu 4.5 diwrnod, ac o ganlyniad nid oes amser i wneud y gwaith o arwain yr ysgol.
- Mynegwyd fod sefydlu'r egwyddorion yn gam pwysig i'r dyfodol a fydd yn gwella amodau a fydd yn gwella addysg plant.

## 8. CYFARCH Y BWLCH ARIANNOL

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyng. Peredur Jenkins

**PENDERFYNWYD**

Mabwysiadu’r Cynlluniau oedd yn atodiadau 1 i 6, yn amodol ar ganlyniadau’r ymgynghoriad, fel rhai y bydd yn rhaid i’r Cyngor eu cyflawni os am geisio sicrhau cyllideb gytbwys yn 2019/20, gan ymgynghori ar y cynlluniau oedd yn atodiadau 3 i 6 yn ystod mis Ionawr.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod angen yn flynyddol i gyllideb y Cyngor fod yn hafal. Ychwanegwyd eleni fod y Cyngor yn rhagweld bwlch ariannol sylweddol ar gyfer 2019/20.

Mynegwyd ers dechrau’r haf fod yr Aelodau Cabinet, y Cyfarwyddwyr a’r Penaethiaid Adran wedi bod yn ystyried beth fyddai angen ei wneud er mwyn cyfarch y bwlch ariannol. Bu i bob adran nodi sut y byddent yn darganfod 20% o’u cyllideb pe byddai angen gwneud hynny. Mynegwyd fod y broses hon wedi bod yn broses anodd, ond trwyadl a’i bod wedi gorfodi pob Adran i edrych ym mhob twll a chornel am arbedion posibl. Yn ychwanegol at hyn, nodwyd fod y Cyngor wedi bod yn ymgynghori a thrigolion Gwynedd i ofyn pa bethau mae’r Cyngor yn ei wneud sydd fwyaf pwysig iddynt.

Rhoddwyd cyd-destun ariannol gan nodi fod y Pennaeth Cyllid yn parhau i geisio sefydlu cyllideb gytbwys ar gyfer 2019/20 a bu pedwar gweithdy i aelodau etholedig i roi dealltwriaeth o ble maent arni erbyn hyn. Eglurwyd fod y Cyngor wedi derbyn setliad siomedig arall gan Lywodraeth Cymru ble gwelwyd grant a roddir i Lywodraeth Leol yn aros yn ei unfan. Ychwanegwyd er hyn fod pwysau aruthrol yn wynebu'r Cyngor ym meysydd Addysg a Gofal a bod cynnydd sylweddol yn chwyddiant cyflogau ac ar faterion megis ynni. O ganlyniad i hyn, eglurwyd fod y Cyngor yn wynebu bwlch ariannol sydd yn debygol o fod o gwmpas £12.9m. Esboniwyd y camau posib y gellir eu cymryd i leihau’r bwlch a drwy wneud hyn, nodwyd, fod yr amcangyfrif diweddaraf yn dod a’r bwlch i lawr i tua £6.8m.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr mai proses fathemategol yw dod o hyd i’r bwlch ariannol sy’n weddill. Ni ellir ond darganfod mwy o arbedion neu gynyddu’r Dreth Gyngor. Nodwyd fel rhan o’r broses o edrych ar bosibiliadau yn ystod y cyfnod ers diwedd yr haf fod yr Adrannau wedi adnabod arbedion effeithiolrwydd pellach a'u bod i’w gweld yn atodiadau 1 a 2 yr adroddiad. Mynegwyd fod yr arbedion effeithiolrwydd sydd yn cael eu cynnig yma yn arbedion ble na fydd llawer o newid i’r gwasanaeth i drigolion Gwynedd a bod canran ohonynt yn arbedion swyddfa gefn. Roedd atodiadau 3 i 6 wedyn yn amlinellu arbedion fyddai yn debygol ar gael mwy o ardrawiad ar drigolion Gwynedd ond nid i’r un graddfa a llawer o gynlluniau eraill a gafodd ystyriaeth.

Bydd yr arbedion yma, ychwanegodd, yn dod at £2.5miliwn a fydda’i dod a’r bwlch i lawr i oddeutu £4.3miliwn. Ychwanegwyd os byddai modd i ddarganfod £0.5 pellach, byddai hyn yn dod a’r bwlch i lawr i £3.8miliwn, a fyddai cyfystyr a chynnydd yn y Dreth Cyngor o 5.5%.

Esboniwyd y bydd ymgynghoriad ar y cynlluniau yn atodiad 3 i 6 yn cael ei gynnal ym mis Ionawr. Yn dilyn hyn, ategwyd, bydd gweithdy yn cael ei gynnal ar gyfer yr holl aelodau i gael rhoi eu barn ynglŷn â lefel benodol o Dreth Cyngor; yr atebion fydd wedi eu derbyn drwy'r ymgynghoriad ac ystyried angen i ddod a mwy o arbedion ag ardrawiad llawer gwaeth i mewn i'r hafaliad.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd mai Prif Weinidog Cymru, pan yn Weinidog dros Gyllid, a luniodd y gyllideb hon. Mynegwyd bod yr Arweinydd wedi datgan ei siom a'i ddicter am y gyllideb i Lywodraeth Cymru. Ategwyd fod gan Lywodraeth Cymru ddewis gan fod bron i biliwn ychwanegol o arian a'r gael ond fod y Llywodraeth wedi blaenoriaethu'r holl adrannau eraill, ac ychwanegodd fod rhai adrannau wedi gweld cynnydd o bron i 14%.
- Mynegwyd fod y setliad wedi ei ddisgrifio gan Brif Weithredwr Cymdeithas Lywodraeth Leol Cymru fel un "brutal", ond ychwanegwyd fod y setliad yn un ddifrifol wael a dieflig. Mynegwyd fod pob awdurdod lleol wedi nodi y bydd toriadau sylweddol am ddigwydd i'w gwasanaethau craidd. Nodwyd mai Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am hyn, yn dilyn y bleidlais a fydd yn cael ei gynnal wythnos yma i benderfynu ar eu cyllideb. Nodwyd hefyd mai cyfrifoldeb unrhyw Aelod Cynlluniad a bleidleisiodd dros y setliad yma fyddai wynebu eu hetholwyr yn y pendraw.
- Mynegwyd fod y Cyngor yn ceisio gwasgu'r geiniog olaf o wasanaethau drwy arbedion effeithiolrwydd, er mwyn isafu'r effaith ar drigolion. Nodwyd mai'r arbedion swyddfa gefn yw'r camau cyntaf, ond fod rhai ag ardrawiad swyddi.
- Nodwyd er bod y Cyngor wedi amddiffyn cyllidebau ysgolion ac ychwanegu chwyddiant ar gyfer tâl athrawon ac yn y blaen, fod Llywodraeth Cymru yn torri eu grantiau i ysgolion mewn termau "real", drwy beidio ychwanegu unrhyw chwyddiant. Ychwanegwyd fod y Cyngor yn ceisio gwarchod gwasanaethau addysg a gofal, ond os bydd pethau yn parhau fel hyn, yna mi fydd angen ail ymweld â'r adrannau yma a gall hynny danseilio diogelwch a bywydau plant a phobl ifanc.
- Nodwyd fod angen i'r Cyngor ddod o hyd i ffordd i adael i drigolion wybod mai toriadau Llywodraeth Cymru yw'r rhain, a bod Cyngor Gwynedd yn ymateb i'r her sydd yn eu hwynebu.
- Codwyd cwestiwn ynglyn a chynllun Pont Abermaw ac fe nododd yr aelod Cabinet ar gyfer Priffyrdd a Bwrdeistrefol fod yna drafodaethau yn mynd ymlaen i weld a ellid gwireddu'r arbediad yma gan sicrhau fod y llwybr yn parhau ar agor. Nodwyd mai yn Ebrill 2020 y byddai disgwyl i'r cynllun yma wireddu ei hun ac felly 'roedd yna amser ar gael i drafodaethau barhau.

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00pm a daeth i ben am 2:00pm

**CADEIRYDD**

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **15 Ionawr 2019** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Ioan Thomas** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Roland Evans** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679 450** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cynllun Gwynedd 2018-2023**<br>**Adnoddau i'r Cynllun 'Cynyddu Budd Digwyddiadau Mawrion'** |

**1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

1.1 Ymrwymo £50,000 o Gronfa Trawsffurfio'r Cyngor yn ystod blwyddyn ariannol 2019-20 er mwyn gwireddu'r Cynllun 'Cynyddu Budd Digwyddiadau Mawrion i Wynedd'.

1.2 Adolygu cynnydd y weithgaredd ac ymrwymiadau pellach i gefnogi gweddill oes y Cynllun cyn diwedd 2019.

**2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

2.1 Yn dilyn mabwysiadu 'Cynllun Gwynedd 2018-2023' gan y Cyngor Llawn ar yr 8fed o Fawrth 2018, mae cael y deilliannau gorau ar gyfer cymunedau a busnesau o ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal yng Ngwynedd wedi ei gynnwys o fewn y flaenoriaeth 'Cynyddu Budd Digwyddiadau Mawrion'.

2.2 Yn unol ag arweiniad y Cabinet yng nghyfarfod y 10fed o Ebrill 2018 cyflwynir adroddiad pellach am benderfyniad ynghylch adnoddau ariannol ychwanegol o Gronfa Trawsffurfio'r Cyngor i gynnal y prosiect o gefnogi Digwyddiadau. Roedd yr adroddiad hefyd i gynnwys dadansoddiad o berfformiad y prosiect yn 2018-19.

2.3 Er mwyn ymateb i drefnwyr digwyddiadau sydd wrthi'n cynllunio ar gyfer 2019 a thu hwnt, mae angen derbyn penderfyniad ar yr adnoddau fydd ar gael i gefnogi'r maes er mwyn gallu dylanwadu'n gadarnhaol ar benderfyniadau'r trefnwyr i ennill y budd mwyaf i'r sir.

2.4 Er mai cyfraniadau cymharol fychan sy'n cael eu cynnig i drefnwyr digwyddiadau trwy'r gronfa hon, mae'r dylanwad a'r effeithiau yn sgîl buddsoddiad y Cyngor yn sicrhau:

- creu cyfleon i fusnesau lleol fanteisio ar gytundebau a chyflenwi gwasanaeth
- cyfleon i gymunedau a phobl ifanc Gwynedd gyfrannu at lwyddiant
- lle canolog i iaith, diwylliant a naws am le Gwynedd
- perthynas gydweithredol dda gydag Uned Digwyddiadau Mawr

Llywodraeth Cymru sy'n disgwyl gweld cyfraniad arian cyfatebol gan yr Awdurdod Lleol lle cynhelir y digwyddiadau - cyn cadarnhau eu cefnogaeth.

- codi proffil Gwynedd fel lle byrlymus a lle da i fyw, i fentro ac ymweld.
- cynyddu nifer, gwariant ac arhosiad ymwelwyr trwy'r flwyddyn.

## 3. CYFLWYNIAD A DIWEDDARIAD AR BERFFORMIAD 2018-19

3.1 Trwy gyflogi Rheolwr Digwyddiadau yn yr Adran Economi a Chymuned mae'r Cyngor yn sicrhau un pwynt cyswllt ar gyfer trefnwyr digwyddiadau o fewn y Sir ac yn hyrwyddo'r ddelwedd o 'un Cyngor' wrth ddelio gyda digwyddiadau.

3.2 Nid oes cyllideb i gefnogi trefnwyr digwyddiadau y tu hwnt i'r gyllideb sydd wedi ei ddyrannu i'r maes trwy Gynlluniau y Cyngor 2014-2017 a 2018.

3.3 Yn unol a chais y Cabinet yn gyfarfod y 10fed o Ebrill 2018 fe weler isod prif allbynnau'r digwyddiadau a gefnogwyd yn ystod 2018-19. Mae gwybodaeth mwy manwl am y digwyddiadau hyn i'w gweld yn Atodiad A.

3.4 Cyfrifir yr allbynnau gan ddefnyddio model cyfrifo sydd yn cael ei argymell gan Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru.

3.5 Gellir gweld o'r isod bod y prosiect wedi cwrdd a churo ei uchelgais o greu budd economaidd i Wynedd o £5m gyda budd economaidd gwerth £5.7m yn cael ei amcangyfrif o ddigwyddiadau 2018-19.

3.6 Gwelir bod buddsoddiad arian cyfatebol o £51,750 Cyngor Gwynedd wedi arwain at ddenu £217,000 o arian Llywodraeth Cymru i ddigwyddiadau nodweddiadol a chynnal digwyddiadau gyda chyfanswm cyllideb o dros £4.6m.

| | |
|---|---|
| Cyfanswm Cyllidebau'r Digwyddiadau | £4,658,808.39 |
| Gwariant cyllidebau yng Ngwynedd | £ 896,062.65 |
| Nifer Digwyddiadau a Gefnogwyd | 25 |
| Nifer a gymerodd rhan | 10,195 |
| Nifer a fynychodd | 70,585 |
| Nifer o ddyddiau digwyddiadau | 55 |
| Cwmnïau a gyflogwyd o Wynedd | 565 |
| Cwmnïau a gyflogwyd o du allan i Wynedd | 1,580 |
| Nifer o wirfoddolwyr a gafodd gyfle | 1,870 |
| Nifer o bobl ifanc a gafodd gyfle | 2,776 |
| Budd Economaidd i Wynedd | £5,771,763.00 |
| Effaith GVA | £2,809,859.00 |
| Swyddi a ddiogelwyd yn economi'r Sir | 123 |
| Cyfraniad ariannol Gwynedd | £51,750 |
| Arian wedi' ddenu trwy Llywodraeth Cymru | £217,500 |

O ran gwerth am arian, dylid amlygu bod pob **£1** mae Cyngor Gwynedd wedi ei fuddsoddi yn nigwyddiadau 2018, mae economi'r Sir wedi elwa o **£111.53**

**UCHAFBWYNTIAU ERAILL 2018-19**

- Hyfforddi deg person yn y Sir trwy gwrs CSAS (Cynllun Achrededig Diogelwch Cymunedol) Heddlu Gogledd Cymru i roi hawl iddynt stopio a rheoli traffic yn gyfreithiol mewn digwyddiadau
- Llwyddiant Bwrlwm Bermo (digwyddiad nofio a rhedeg awyr agored) yn denu

1,000 o bobl i gymryd rhan yn y digwyddiad allan o dymor ym Mis Hydref

- Cychwyn Ras Feicio y Tour of Britain yn Nolgellau yn cael ei ddarlledu ar ITV 4
- Gŵyl Rhif 6 yn buddsoddi £435,000 yn uniongyrchol yn economi Gwynedd
- Red Bull yn cael eu cymhell ac yn cytuno i ddefnyddio Plas Tan y Bwlch fel llety ar gyfer Red Bull Hardline
- Cyfarfod cadarnhaol wedi' gynnal rhwng Grŵp Strategol Digwyddiadau Gwynedd ac uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru
- Rheolwr digwyddiadau wedi gweithio hefo neu gynghori dros 30 o gwmnïau neu gymunedau parthed materion yn ymwneud â digwyddiadau.

**CYFLEON 2019-2020**

Mae nifer o gyfleon eisoes yn cael eu trafod ar gyfer digwyddiadau 2019 yn cynnwys:

- Cyfle i ddenu digwyddiadau rhyngwladol amrywiol i Wynedd ac Eryri.
- Gweithio hefo Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru yn strategol ar ddigwyddiadau i'w cynnal ar draws Gwynedd.
- Gweithio i ddatblygu digwyddiadau mewn cymunedau amrywiol ar draws y Sir.
- Cydweithio i ddenu un o ddigwyddiadau beicio mynydd y byd i Feirionnydd.
- Mae cyfleon eraill yn debygol o godi yn ystod y flwyddyn.

## 4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

4.1 Ar gyfer cyfnod nesaf Cynllun Gwynedd, bwriedir dysgu o brofiadau cynlluniau'r gorffennol a newid y modd y mae'r Cyngor yn cyd-weithio gyda threfnwyr digwyddiadau.

4.2 Ni fydd y Cyngor yn rhoi 'grant' i drefnwyr digwyddiadau, ond yn hytrach yn cydweithio gyda hwy trwy fuddsoddi yn eu digwyddiad er mwyn cael y deilliannau gorau i'r Sir.

4.3 Bwriedir sefydlu trefn asesu ffurfiol ar gyfer adnabod y digwyddiadau i'w cefnogi. Bydd hwn wedi ei selio ar yr allbynnau disgwyliedig a'r buddion mwyaf ffafriol i bobl Gwynedd. Trwy gynnig termau ac amodau safonol wrth fuddsoddi, mae'r Gwasanaeth yn credu bod modd:

   i. Darparu cymorth ariannol ac ymarferol i ddenu a chadw digwyddiadau o fudd economaidd yn y sir a'u hannog i weithio gyda chyflenwyr lleol a hyrwyddo Gwynedd;
   ii. Datblygu cadwyn gyflenwi lleol i ddarparu nwyddau a gwasanaethau i ddigwyddiadau yng Ngwynedd a thu hwnt;
   iii. Hyrwyddo'r sir i ymwelwyr a buddsoddwyr drwy law digwyddiadau;

4.4 Trwy weithredu'r uchod, bwriedir creu busnes newydd i fentrau cynhenid Gwynedd a denu mwy o ymwelwyr a buddsoddwyr i Wynedd.

4.5 Os na fydd cyllideb ar gael ar gyfer buddsoddi mewn digwyddiadau, ni fydd modd i'r Cyngor gydweithio mor effeithlon gyda threfnwyr na dylanwadu cystal er mwyn cynyddu'r buddion i'r Sir. Gallai hyn arwain at:

   4.5.1 Y risg o golli digwyddiadau o Wynedd yn gyfangwbwl neu eu gweld yn ail leoli i ardaloedd eraill o Gymru a thu hwnt;
   4.5.2 Colli'r buddion economaidd i fusnesau a chymunedau Gwynedd;
   4.5.3 Colli'r cyfle i godi proffil a delwedd y sir ymysg pobl Gwynedd ac

ymwelwyr;

4.5.4 Colli'r cyfle i ddylanwadu ar ddefnydd o iaith a diwylliant Gwynedd mewn digwyddiadau a chynnig profiadau gwerthfawr i bobl ifanc y Sir;

4.5.5 Methu cydweithio'n effeithiol efo Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru i ddenu a chefnogi digwyddiadau mawr yn y Sir gan na fyddai modd iddynt gefnogi digwyddiadau yn y Sir heb arian cyfatebol gan Gyngor Gwynedd.

4.5.6 Methu cyfle i ddylanwadu ar a hybu ansawdd, Cymreictod, naws am le a chyfleon i gwmnïau a chymunedau lleol mewn digwyddiadau

## 5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

5.1 Yn dilyn penderfyniad y Cabinet, bydd y cynllun prosiect yn cael ei ymestyn a chydweithio'n parhau gyda threfnwyr digwyddiadau, adrannau perthnasol y Cyngor a phartneriaid i roi'r cynllun ar waith er mwyn cynyddu'r budd o ddigwyddiadau mawrion i bobl Gwynedd.

5.2 Bydd adroddiad ar weithgareddau a llwyddiannau 2019 a chais am adnoddau pellach ar gyfer gweddill oes y cynllun yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet cyn diwedd 2019.

## 6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

**Barn Y Prif Swyddog Cyllid:**

*Mae adnoddau digonol yng Nghronfa Trawsffurfio'r Cyngor i gwrdd â'r cais yma. Serch hynny, bydd sawl angen / defnydd haeddiannol yn cystadlu am adnodd cyfyngedig y gronfa hon, a mater i aelodau'r Cabinet fydd blaenoriaethu'r ceisiadau perthnasol.*

**Barn y Swyddog Monitro:**

*Rwyf yn nodi'r cynnydd a'r buddion sydd yn cael eu nodi o fewn yr adroddiad. Yn unol â threfniadau o dan gynlluniau blaenorol, bydd angen telerau ac amodau safonol i unrhyw gymorth er mwyn ymrwymo trefnwyr digwyddiadau. Dim sylwadau pellach o ochr priodoldeb.*

**Barn Aelod Lleol**: Dim yn fater lleol

**ATODIAD A**
**Allbynnau real y digwyddiadau a gefnogwyd**
**2018-19**

| | Enw'r Digwyddiad | Nifer a gymerodd rhan | Nifer a fynychodd | Nifer o ddyddiau | Nifer o gwmniau a gyflogwyd o du allan i Wynedd | Nifer o gwniau a gyflogwyd o Wynedd | Nifer o wirfoddolwyr a gafodd gyfle yn y digwyddiad | Nifer o bobl ifanc yn elwa | Adroddiad budd Economaidd i Wynedd | Effaith GVA | Swyddi a gefnogwyd | Cyfraniad Gwynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **MAWR** | | | | | | | | | | | |
| 1 | Triathlon Harlech | 381 | 1,143 | 1 | 10 | 12 | 86 | 26 | £112,917.00 | £50,813.00 | 2 | £1,250.00 |
| 2 | Llanc y Llechi | 1,267 | 3,801 | 2 | 10 | 12 | 86 | 27 | £472.363.00 | £212,563.00 | 9 | £1,250.00 |
| 3 | Tour of Britain (M) | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | £10,000.00 |
| 4 | Bash Mawr y Bala | 721 | 3,000 | 2 | 5 | 19 | 86 | 223 | £329,309.00 | £148,189.00 | 7 | £5,000.00 |
| 5 | Trail Marathon | 2,121 | 6,363 | 1 | 10 | 12 | 87 | 26 | £620,972.00 | £279,438.00 | 12 | £1,250.00 |
| 6 | Gwyl Rhif 6 | 2,,883 | 11,115 | 4 | 1,250 | 50 | 215 | 0 | £2,352,095.00 | £1,058,443.00 | 47 | £5,000.00 |
| 7 | Red Bull - Hardline | 29 | 3,000 | 1 | 19 | 15 | 60 | 29 | £385,000.00 | £173,250.00 | 8 | £5,000.00 |
| | | | | | | | | | | | | |
| | **STRATEGOL** | | | | | | | | | | | |
| 1 | Gwyl Fwyd Caernarfon | 350 | 20,000 | 1 | 22 | 88 | 120 | 200 | £90,760.00 | £40,842.00 | 2 | £2,000.00 |
| 2 | Gwledd Symudol Llanberis | 60 | 1,000 | 1 | 20 | 30 | 50 | 120 | £15,728.00 | £7,078.00 | 0 | £500.00 |
| 3 | Gwledd Symudol Bangor | 80 | 1,200 | 1 | 30 | 50 | 70 | 150 | £13,060.00 | £5,877.00 | 0 | £500.00 |
| 4 | Ras Cychod y Tri Copa | 80 | 620 | 7 | 12 | 10 | 29 | 0 | £31,162.00 | £14,023.00 | 1 | £2,000.00 |

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | Gwledd Symudol Criccieth | 80 | 2,300 | 1 | 40 | 40 | 60 | 240 | £38,846.00 | £17,481.00 | 1 | £500.00 |
| 6 | Roc Gwlad Zip | 200 | 1,800 | 1 | 0 | 20 | 50 | 50 | £101,800.00 | £45,810.00 | 2 | £2,000.00 |
| 7 | Supernova Weekend | 114 | 236 | 3 | 0 | 4 | 37 | 2 | £58,100.00 | £26,145.00 | 1 | £2,000.00 |
| 8 | Gwledd Symudol Porthmadog | 40 | 1,900 | 1 | 40 | 20 | 60 | 660 | £46,658.00 | £20,996.00 | 1 | £500.00 |
| 9 | Ras y Wyddfa | 900 | 4,000 | 1 | 25 | 15 | 150 | 200 | £183,928.00 | £82,768.00 | 4 | £2,000.00 |
| 10 | Wythnos Dingi Abersoch | 225 | 500 | 7 | 5 | 30 | 40 | 90 | £180,600.00 | £81,270.00 | 4 | £1,000.00 |
| 11 | Paraffest | 226 | 907 | 2 | 15 | 10 | 30 | 0 | £120,304.00 | £54,137.00 | 2 | £2,000.00 |
| 12 | Rasio'r Tren | 2,000 | 5,000 | 1 | 15 | 25 | 400 | 350 | £463,019.00 | £208,359.00 | 9 | £2,000.00 |
| 13 | Wythnos cwch gefn Abersoch | 230 | 650 | 7 | 5 | 30 | 25 | 120 | £169,700.00 | £76,365.00 | 3 | £1,000.00 |
| | | | | | | | | | | | | |
| | **LLAI** | | | | | | | | | | | |
| 1 | Cystadleuaeth Tonfyrddio agored Cymru | 28 | 100 | 2 | 0 | 2 | 3 | 13 | £7,312.00 | £3,290.00 | 0 | £1,000.00 |
| 2 | Gwyl Car gwyllt | 100 | 550 | 1 | 0 | 7 | 40 | 150 | £7,064.00 | £3,179.00 | 0 | £1,000.00 |
| **3** | Sesiwn Fawr Dolgellau | 140 | 1,200 | 3 | 5 | 35 | 26 | 90 | £69,024 | £31,061.00 | 1 | £1,000.00 |
| 4 | Bwrlwm Bermo | 673 | 1,200 | 1 | 42 | 9 | 45 | 0 | £315,645.00 | £142,040.00 | 6 | £1,000.00 |
| 5 | Gwyl y Môr Ladron Caernarfon | 150 | 8,000 | 2 | 0 | 20 | 15 | 10 | £58,760.00 | £26,442.00 | 1 | £1,000.00 |
| | | **10,195** | **79,585** | **55** | **1,580** | **565** | **1,870** | **2,776** | **£5,771,763.00** | **£2,809,859.00** | **123** | **£51,750.00** |

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **1 CYFLWYNIAD** | |
| **Dyddiad:** | 15 Ionawr 2019 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Amgylchedd |
| **Pwrpas:** | Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Dafydd Meurig |
| **Swyddog Cyswllt:** | Dilwyn Williams, Prif Weithredwr |

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel Aelod Cabinet Amgylchedd. Bydd hyn yn cynnwys adrodd ar ble mae'r mesurau perfformiad arni, a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Rwyf am eich atgoffa bod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfodydd o'r Tîm Rheoli a gynhaliwyd yn benodol at y pwrpas sydd hefyd yn cynnwys dau gynrychiolydd o'r Pwyllgor Craffu perthnasol, er, yn siomedig, nid oedd cynrychiolydd yn bresennol yn y cyfarfod diwethaf.

1.3 Ar y cyfan, rwy'n hapus gyda pherfformiad y mesurau yr wyf yn gyfrifol amdanynt, a bod camau priodol wedi eu cymryd er mwyn gwella perfformiad lle bo angen.

## 2 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad

## 3. PERFFORMIAD

3.1 Mae ***Atodiad 1*** yn adrodd ar y mesurau perfformiad.

2.2 Mae'r **Gwasanaeth Cynllunio** yn gyfrifol am hwyluso a rheoli datblygiadau er budd cymunedau, yr economi a'r amgylchedd.

2.3 'Rydw i wedi bod yn cadw golwg ar fesur perfformiad **Pa mor sydyn mae'r holl geisiadau ar gyfartaledd wedi cymryd i'w penderfynu (C2)** wedi i'r perfformiad ar y mesur droi'n ansefydlog ar ddechrau'r flwyddyn hon. Mae'r perfformiad wedi sefydlogi erbyn hyn, gyda'r cyfartaledd cronnus bellach yn 63 diwrnod. Wrth herio'r perfformiad nododd y Gwasanaeth fod effaith y Cynllun Dirprwyo newydd bellach yn ymddangos yn y perfformiad, ac yn cael ei fonitro trwy gofnodi ar wahân. Dengys y dull newydd o gofnodi fod ceisiadau a benderfynir gan y Pwyllgor yn cymryd mwy o amser i'w penderfynu, ond gan mai ceisiadau mwy cymhleth a chynhennus sy'n mynd gerbron y Pwyllgor, mae hyn i'w ddisgwyl.



**Cyswllt:**
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

2.4 Mae **bodlonrwydd** gyda'r gwasanaeth yn parhau i fod yn weddol uchel (87.8%), gyda mynegiant o anfodlonrwydd yn cylchdroi o gwmpas y drefn o gysylltu gyda'r gwasanaeth. Ar y llaw arall, mae nifer o'r cwsmeriaid bodlon wedi nodi fod y drefn o gael cyngor cyn cyflwyno cais cynllunio a chael y cyfle i ddiwygio cynlluniau yn werthfawr.

2.5 Mae'r dasg o gael mesurydd ystyrlon ym maes Gorfodaeth yn parhau. I'r perwyl hwnnw mae'r gwasanaeth wedi cyflwyno dulliau newydd o gofnodi a blaenoriaethu cwynion er mwyn gwneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael. Wrth herio'r gwasanaeth nodais ei fod yn bwysig nad oedd y dulliau blaenoriaethu newydd yma'n arwain at golli unrhyw alwadau, gan adael pobl Gwynedd i lawr o'r herwydd.

2.6 Wedi mabwysiadu'r Cynllun Datblygu lleol ar y Cyd yn haf 2017, mae'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi bod yn gweithio'n galed i ddatblygu a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol er mwyn rhoi cig ar esgyrn y polisïau Cynllunio. Er fy mod wedi derbyn peth beirniadaeth fod y gwaith yn araf yn cael ei gyflawni 'rydw i'n hyderus y bydd y gwaith trwyadl sy'n cael ei wneud ar y canllawiau yn sicrhau'r cynnyrch gorau phosib.

2.7 Pwrpas **Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd** yw cefnogi busnesau a gwarchod safonau iechyd cyhoeddus ac amgylcheddol a safonau masnach ar gyfer y cyhoedd a sicrhau fod gweithgareddau trwyddedig yn cael ei darparu mewn ffordd sydd yn gwarchod y cyhoedd ac yn cefnogi busnesau. Mae mesur **Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd (G6)** yn nodi fod 98.92% o'r sefydliadau bwyd yn cydymffurfio, gyda dim ond 1.1% yn methu sef 24 busnes. Gyda rheini, mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda'r busnesau i gywiro'r sefyllfa.

2.8 Mae'r mesurau ar gyfer **canran y sefydliadau bwyd sydd wedi cael arolygiadau Hylendid Bwyd (G8) a Safonau Bwyd (G9),** yn dangos fod y gwasanaeth yn parhau i fod y tu ôl y rhaglen o ran arolygiadau Hylendid Bwyd a Safonau bwyd. Ar ddiwedd y cyfnod diwethaf 'roedd oddeutu 9% o archwiliadau Hylendid Bwyd a 23% o'r archwiliadau Safonau Bwyd oedd wedi eu rhaglennu heb eu cwblhau.

2.9 Wrth herio eu perfformiad nododd y Gwasanaeth fod y llithriad yn y rhaglen yn deillio o'r diffyg capasiti sydd eisoes wedi ei amlygu mewn adroddiadau perfformiad yn y gorffennol. Bellach mae swyddogion ychwanegol wedi eu penodi, ac mae'r gwasanaeth wedi mabwysiadu trefniadau mwy effeithlon trwy gynnal archwiliadau hylendid bwyd a safonau bwyd yn yr un ymweliad ble mae hynny'n bosib.

2.10 Dengys y wybodaeth ynghylch **Cyfartaledd y dyddiau a gymerir i benderfynu cais trwydded tacsi (G7)** fod y perfformiad wedi gwella i 7.78 diwrnod o'i gymharu â 9.96 yn yr adroddiad diwethaf. Braf oedd nodi hefyd fod y cyfartaledd ar gyfer prosesu trwyddedau gyrwyr wedi gostwng hefyd i 28. Wrth herio'r Gwasanaeth nodwyd fod trwyddedau ar gyfer cwmnïau a cherbydau tacsis yn cael eu prosesu yn gyflym iawn - o fewn 2 ddiwrnod ar gyfartaledd. Yr hyn sy'n achosi'r cyfartaledd gynyddu yw'r ceisiadau ar gyfer trwyddedau gyrwyr. Mae'r drefn o wneud gwiriad DBS yn araf, yn enwedig gyda'r tystysgrifau yn cael eu gyrru i'r ymgeisydd yn hytrach na'r Gwasanaeth erbyn hyn oherwydd rheoliadau newydd. Nododd y gwasanaeth hefyd fod y drefn o drefnu gwrandawiadau o flaen Is-Bwyllgorau Trwyddedu yn ychwanegu oediad i'r broses, a bod y gwasanaeth yn bwriadu cydweithio gyda'r gwasanaeth cyfreithiol er mwyn edrych ar y cynllun dirprwyo er mwyn ceisio gwella'r sefyllfa.

2.11 Mae'r **Gwasanaeth Eiddo** yn gyfrifol am gefnogi Adrannau'r Cyngor drwy ddarparu eiddo addas ar gyfer cyflwyno gwasanaethau a sicrhau fod portffolio eiddo'r Cyngor yn cael ei reoli'n effeithlon ac effeithiol.

2.12 Gwelwn fod data mesur perfformiad ar yr **Amser (mewn dyddiau) a gymer i ymateb i gais am waith cynnal a chadw (Eiddo1)** wedi aros yn sefydlog rhwng 8.1 a 8.4 ar gyfer y cyfod diwethaf, gyda'r polisi o fewnoli crefftwyr a lleihau dibyniaeth ar gontractwyr allanol yn parhau i fod yn effeithiol. Adroddodd y Gwasanaeth fod perfformiad mesur **Canran bodlonrwydd cwsmeriaid yr uned cynnal a chadw (Eiddo2)** wedi gwella yn ddiweddar, gan godi o 86% i 90%. O'u herio, nododd y Gwasanaeth fod yr adborth negyddol yn tueddu i gyfeirio at ddiffyg diweddaru yn ystod darn o waith. Yn anffodus mae'r galw ychwanegol sydd wedi dod o gefnogi'r gwasanaeth Teleofal wedi golygu dwysau pwysau gwaith. Fodd bynnag mae'r gwasanaeth mewn trafodaethau er mwyn cynyddu'r adnodd sydd ar gael er mwyn medru cynnal y gofal cwsmer gorau posib.

2.13 Mae perfformiad mesur **Canran adeiladau gyda systemau diogelwch cyflawn mewn lle (Eiddo4)** wedi dirywio yn sylweddol yn ddiweddar, o 91% i 73%. Wedi i mi herio'r Gwasanaeth nodwyd fod aelod staff wedi bod yn absennol oherwydd salwch, ac nad oedd staff arall gyda'r arbenigedd i wneud y gwaith. Gan fod gwaith y Gwasanaeth yn faes risg uchel 'rydw i'n falch fod y Gwasanaeth wedi comisiynu cwmni allanol i lenwi'r bwlch.

2.14 Mae'r perfformiad ar fesurydd **Canran Bodlonrwydd Cwsmeriaid Uned Difa Pla (Eiddo5)** yn parhau yn uchel. Dylid nodi fod achosion wedi eu canfod ble nad yw negeseuon yn cael eu trosglwyddo o'r system hunanwasanaeth i'r staff difa pla yn effeithiol. 'Rydw i wedi gofyn i'r Gwasanaeth sicrhau fod hyn yn cael ei ddatrys gan na ddylai unrhyw gwsmer orfod cysylltu ddwywaith er mwyn derbyn gwasanaeth.

2.15 Mae'r **Gwasanaeth Trafnidiaeth Integredig** yn ei gyfanrwydd yn hwyluso gallu pobl i deithio o un lle i'r llall ar draws rhwydwaith sy'n ddiogel gan hefyd godi eu hymwybyddiaeth a'u haddysgu am ddiogelwch.

2.16 Mesurau pwysig ar gyfer y Gwasanaeth yw'r **Nifer o gwynion a dderbyniwyd am wasanaethau cludiant cyhoeddus dan gontract i'r Cyngor (Cludiant02) a Nifer o gwynion a dderbyniwyd am wasanaethau cludiant cyhoeddus masnachol eu natur (Cludiant03).** Derbyniwyd cyfanswm o 10 cwyn am wasanaethau cludiant cyhoeddus ac mae'r cwynion yn dangos peth rhwystredigaeth gyda'r gwasanaeth. Er bod sefyllfa trafnidiaeth gyhoeddus Gwynedd wedi sefydlogi ers yr haf, 'roedd penderfyniad y Comisiynydd Trafnidiaeth i wahardd un cwmni bysiau yn golygu y bu rhaid i'r Cyngor orfod trefnu i gwmni arall weithredu llwybrau ychwanegol ar fyr rybudd. Erbyn hyn mae'r darlun wedi sefydlogi eto ac 'rydw i wedi gofyn i'r Gwasanaeth barhau i weithio'n galed i drefnu'r gwasanaeth gorau posib i bobol Gwynedd.

2.17 Mae'r **Uned Traffig, Prosiectau a Gwaith Stryd** yn gyfrifol am brosesu gorchmynion traffig. Ar gyfartaledd mae'n cymryd 266 diwrnod i orchymyn traffig ddod yn weithredol. Er mwyn deall ble mae posib gwneud gwelliannau i'w systemau mae'r Uned wedi bod yn arbrofi gyda dulliau gwahanol o grwpio gorchmynion. Maent hefyd wedi bod yn cofnodi'r perfformiad mewn modd sydd yn ei gwneud yn llawer haws gweld lle mae rhwystrau posib i wella perfformiad.

2.18 Mae'r dasg o ganfod mesurau sy'n adlewyrchu gwaith y **Gwasanaeth Cefn Gwlad** yn parhau. Byddaf yn adrodd arno i'r dyfodol.

2.19 Mae yna 3 adolygiad Ffordd Gwynedd mewn llaw ar hyn o bryd. Yn y maes Cynllunio (sy'n cael ei redeg yr un pryd ag adolygiad Rheolaeth Adeiladu) mae llawer o waith dadansoddi wedi ei wneud, ac rwy'n hyderus bydd adroddiad yn cael ei rannu maes o law. Mae'r Uned Cefn Gwlad wedi dechrau ar adolygiad, gan fynd ati'n frwd i gasglu data. Mae'r Uned Stadau a Chyfleusterau eto i ddechrau, ond rwy'n hyderus y byddant yn dechrau'r adolygiad yn y dyfodol agos.

4 **SEFYLLFA ARIANNOL/ ARBEDION**

4.1 **Gwireddu Cynlluniau Arbedion Cyfredol**

Mae holl gynlluniau arbedion yr Adran Amgylchedd hyd at ddiwedd y flwyddyn 2018/19 wedi eu gwireddu.

**5 Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor**

5.1 Yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2018-23 nodir fod gan yr Aran Amgylchedd dair blaenoriaeth leol. Mae'r blaenoriaethau lleol yn faterion a godwyd gan Gynghorwyr fel materion oedd yn achosi pryder yn eu wardiau.

5.2 Nodwyd fod pryder yn ardaloedd Caernarfon, Dyffryn Nantlle a'r Bala am ddiffyg lleoedd parcio. Ni fu cynnydd ar y flaenoriaeth yma hyd yn hyn.

5.3 Nodwyd yn ardaloedd Dyffryn Nantlle a Chaernarfon bryder am ddiogelwch ffyrdd tu allan i ysgolion. Mae'r adran wedi cynnal trafodaethau gyda'r ysgolion i drafod eu pryderon, ac maent ar hyn o bryd yn cynnal asesiadau ar y safleoedd i weld sut mae posib lleihau'r risgiau i ddefnyddwyr.

5.4 Nodwyd ymdeimlad mewn sawl ardal fod angen gwella cyflwr llwybr yr arfordir. Yn ardal Porthmadog mae gwelliannau wedi eu cwblhau ger Tŷ Moelwyn, gyda gwaith yn mynd yn ei flaen i weld ble mae cyfleoedd i wneud gwelliannau pellach. Yn ardal Tywyn ac Aberdyfi mae galw i gwblhau'r llwybr beicio, ac mae cais wedi ei wneud i Gronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru er mwyn datblygu'r cynllun ymhellach. Mae galw hefyd i adeiladu llwybr aml ddefnydd rhwng Pwllheli a Llanbedrog, a byddwn yn gwneud cais i Lywodraeth Cymru er mwyn datblygu'r cais ymhellach.

---

**Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**


Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf yn cadarnhau fod y sylwadau yn rhan 4.1 o'r adroddiad yn adlewyrchiad cywir o'r sefyllfa o ran gwireddu'r arbedion sy'n gyfrifoldeb yr Adran Amgylchedd

---

**Atodiadau**

**Atodiad 1 –** Mesurau Perfformiad





Nifer o Gwsmeriaid Bodlon

36

Cyfanswm Nifer o Gwsmeriaid a Dargedwyd


41







**Sylwadau**

Yr holiadur yn seiliedig ar sampl o gwsmeriaid sydd wedi derbyn penderfyniad ar gais cynllunio yn ystod y cyfnod. Mae'r canlyniadau yn dangos mai'r rhesymau dros anfodlonrwydd canran fychan o'r cwsmeriaid yw anfodlonrwydd gyda trefniadau cysylltu gyda'r Gwasanaeth ac nad oes cyfle i drafod can cael gwrthodiad. Mae'r sylwadau o fodlonrwydd yn cynnwys sylwadau cadarnhaol iawn am y gwasanaeth a'r cyngor a roddir gan swyddogion (er gwaethaf cais wedi ei wrthod mewn rhai achosion). Er hynny rhaid nodi fod nifer o'r cwsmeriaid bodlon wedi ychwanegu sylwadau yn ymwneud a'r drefn anodd o gael gafael ar swyddog cynllunio / trefniadau cysylltu ac fod y drefn o gael cyngor cyn cyflwyno cais a'r cyfle i wneud diwygiadau bychan yn werthfawr.





## Sylwadau

Mae’r nifer o ddyddiau mae ceisiadau ar gyfartaledd wedi cymryd i’w penderfynu ers Ebrill 2017 wedi bod yn eithaf cyson o gwmpas y 60 diwrnod. Mae’r perfformiad erbyn hyn wedi ei rannu i ddangos cyfartaledd y cyfnod, cyfartaledd ceisiadau dirprwyedig a chyfartaledd ceisiadau a gyflwynwyd i’r Pwyllgor. Noder fod toriad yn cael ei ddangos o gyfnod 1/5/18 ymlaen ac mae hyn yn adlewyrchu y cyfnod ble mabwysiadwyd y Cynllun Dirprwyo Cynllunio newydd. Ers y cyfnod yma ma cyfartaledd y cyfnod wedi aros yn weddol gyson ac mae’r cyfartaledd ar gyfer ymdrin gyda cheisiadau dirprwyedig yn gyson gyda'r cyfnod statudol ar gyfer ymdrin gyda cheisiadau. Mae mabwysiadu’r Cynllun Dirprwyo newydd hefyd wedi golygu llai o geisiadau gerbron y Pwyllgor ac felly mae canran uwch o geisiadau yn cael penderfyniad o dan y drefn dirprwyedig. Mae cyfartaledd amser ceisiadau sydd gerbron y Pwyllgor yn llawer uwch a hynny oherwydd fod natur y cais fel arfer yn fwy cymhleth neu gynhennus lle o bosib fod negodi neu ddisgwyl gwybodaeth wedi digwydd er mwyn gallu gwneud argymhelliad. Er hyn, yn ystod y cyfnod bu i 77% o geisiadau gael eu penderfynu o fewn 56 diwrnod. Yn ystod mis Awst bu problemau TG difrifol gafodd effaith andwyol ar lif gwaith ac allbwn y Gwasanaeth ac bu y gwaith dal fyny yn parhau hyd at yn ddiweddar iawn. Mae’n debyg nad yw gwir effaith hyn ar y gwasanaeth yn cael ei adlewyrchu yma.




## Sylwadau

Mae’r canran o geisiadau sydd yn cael eu caniatáu yn weddol gyson ac yn parhau i fod yn dystiolaeth bendant o gysondeb a gwasanaeth cynllunio cadarnhaol. Noder y gostyngiad sydd yn dilyn y cyfnod o fabwysiadu’r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd diwedd Gorffennaf 2017 sydd wedi golygu fod rhai agweddau polisi wedi newid yn sylweddol a’i bod yn debygol nad oedd rhai ymgeiswyr / asiantwyr yn ymwybodol o’r oblygiadau e.e. datblygiad oedd yn cwrdd ag anghenion y Cynllun Datblygu Unedol yn flaenorol ond yn groes i bolisïau’r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Bydd annog defnydd o’r gwasanaeth cyn-cyflwyno cais hefyd o gymorth i sicrhau nifer uchel o geisiadau yn cael eu cymeradwyo.






## Sylwadau

Bwriad y dangosydd hwn yw mesur canran yr holl achosion y llwyddir i ymchwilio iddynt o fewn amserlen benodol. Nod hynny yw annog y Cyngor i ddelio â phob achos gorfodi'n gyflym a sicrhau bod y cyhoedd yn dod i wybod am ganlyniad ymchwiliadau a'r camau y bydd y Cyngor yn ei cymryd i ddatrys rheol cynllunio sydd wedi'i thorri, lle gwelir bod un wedi'i thorri. Mae canran o dros 80% yn cael ei ystyried yn berfformiad da. Serch hynny, nid yw yn adnabod y nifer o achosion sydd yn parhau yn agored; hynny yw, ble mae angen "camau gorfodi positif", nac ychwaith yn adnabod llwyth gwaith swyddogion a perfformiad yr Uned Gorfodaeth yn ei gyfanrwydd at bwrpas rheolaeth effeithiol. Nid yw'r dangosydd ar gyfer camau gorfodi positif wedi ei feincnodi hyd yma, ac felly mae angen ystyried cyflwyno mesurydd Mewnol ychwanegol sydd yn gallu adlewyrchu llwyth gwaith swyddogion, a perfformiad yr Uned yn ei gyfanrwydd.

| **Y mesurydd polisi ers Awst 2017:** |
|---|
| C5 - Mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol i'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn cynnwys mabwysiadu 4 CCA erbyn Chwarter 3 o 2017-18 (Dyma nodwyd yn y fframwaith fonitro i'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd) |


## Sylwadau – Canllawiau Cynllunio Atodol

Mae'r CCA yn rhoi cig ar asgwrn polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol ac yn rhoi arweiniad ar weithrediad cyson y polisïau i swyddogion ac i ddarpar ymgeiswyr am ganiatâd cynllunio.

Nodwyd mewn adroddiadau monitro perfformiad blaenorol cafodd yr amserlen a nodir uchod ei gytuno pan oedd y Gwasanaeth yn disgwyl mabwysiadu'r Cynllun yn gynharach yn ystod 2017. Fe lithrodd yr amserlen yn wreiddiol oherwydd ni chafodd y Cynllun ei fabwysiadu tan ddechrau Chwarter 2 (2017-18) ac felly nid oedd yn ymarferol i roi adnoddau o'r neilltu i ddechrau'r gwaith. Ar ôl mabwysiadu'r Cynllun, gwelwyd cynnydd yn y galw am arweiniad polisi cynllunio gan yr Uned oddi wrth swyddogion cynllunio yn gysylltiedig â chymhwyso rhai o'r polisïau newydd a bu swyddogion yn yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd adref yn sâl am gyfnodau gymharol hir. Gyda'i gilydd nid oedd adnoddau digonol nac amser rhesymol i allu gwneud cynnydd arwyddocaol i baratoi'r gyfres gyntaf o CCA ac mae'n debyg mai'r risg sydd yn gysylltiedig a hyn yw y bydd cyfnod hirach lle nad oes arweiniad manwl ar rai o bolisïau cynllunio'r CDLl. Cafodd trefniant cydweithio rhwng yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd a'r 2 Wasanaeth Cynllunio ei gytuno ym mis Mai 2018 er mwyn sicrhau bod yr Uned yn gallu rhoi ffocws ar roi arweiniad ar geisiadau sy'n codi materion polisi o sylwedd a rhoi ffocws i waith paratoi'r CCA.

Mae'r tabl nesaf yn rhoi'r wybodaeth diweddaraf am y cynnydd i baratoi'r gyfres gyntaf o'r CCA.


| **Enw'r Canllaw Cynllunio Atodol** | **Statws (Tachwedd 2018)** |
|---|---|
| Cymysgedd Tai | Mabwysiadwyd Hydref 2018 |
| Datblygiad twristiaeth – atyniadau a llety | Ymgynghoriad cyhoeddus (1af) Mehefin/ Gorffennaf 2018<br>Ymgynghoriad cyhoeddus (2il) Rhagfyr 2018 – Ionawr 2019 (am ddau newid arwyddocaol) |
| Tai marchnad leol | Ymgynghoriad cyhoeddus Hydref – Tachwedd 2018 |
| Llecynnau agored o fewn datblygiad preswyl newydd | Ymgynghoriad cyhoeddus Hydref – Tachwedd 2018 |
| Tai fforddiadwy | Ymgynghoriad cyhoeddus Rhagfyr 2018 – Ionawr 2019 |
| Cynnal a chreu cymunedau cynaliadwy | Ymgynghoriad cyhoeddus Rhagfyr 2018 – Ionawr 2019 |
| Ymrwymiadau cynllunio | Drafft cyntaf i gyfarfod Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd – Tachwedd 2018 |
| Trosi adeiladau ac ail- adeiladu tai yng nghefn gwlad | Drafft cyntaf i gyfarfod Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd – Tachwedd 2018 |






**Sylwadau**


Mae'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy yn golygu fod yr ACLl yn darparu lefel uwch o dai fforddiadwy na'r targed uchaf o fewn y CDLl sydd yn 30%. Mae hyn yn adlewyrchu'r patrwm blaenorol a chadarnhaol ar gyfer nifer o dai fforddiadwy sy'n cael eu caniatau.




**Sylwadau**

Gweler sylwadau siart blaenorol C6

G1: Canran o gwsmeriaid a ymatebodd i arolwg ddywedodd eu bod yn fodlon â'r lefel gwasanaeth (01/04/2018 - 31/10/2018)





Nifer o Gwsmeriaid Bodlon

124

Cyfanswm Nifer o Gwsmeriaid a Dargedwyd

124





## Sylwadau

Yn sgil gweithrediad y Rheoliadau Gwarchod Data Cyffredinol (GDPR) mae Gwasanaeth gwarchod y Cyhoedd wedi mabwysiadu trefn newydd ar gyfer ymdrin ag arolygon cwsmeriaid .

Ar y pwynt cyswllt cyntaf roedd cwsmeriaid yn cael eu holi os ydynt yn fodlon cael eu cynnwys mewn arolwg cwsmer ai peidio.

Ar y cychwyn cafwyd peth anhawster gyda gweithrediad y drefn oedd yn yn cynnwys cyfran o gwsmeriaid oedd yn gwrthod cael eu holi ond mae hyn gydag ond canlyniadau ar gyfer 3 uned oddi fewn y gwasanaeth sydd ar gael, ond ymddengys bod yr anhawsterau wedi ei goresgyn erbyn hyn.

G2: Canran y busnesau uchel eu risg sydd wedi cael arolygiad yn unol a'r rhaglen




Nifer o sefydliadau wedi cael arolygiad

16


Nifer o sefydliadau lle mae'r arolygiad yn Hwyr

7

Nifer o sefydliadau angen arolygiad

28

Nifer o fusnesau uchel eu risg wedi cael arolygiad yn unol a'r rhaglen




## Sylwadau


Mae'r mesurydd yma wedi ei addasu i adrodd ar berfformiad cynnal  arolygiadau hylendid bwyd, safonau bwyd ac iechyd anifeiliaid eiddo categori risg A yn unig ( y categori risg uchaf).

Mae bob busnes categori risg A hylendid a safonau bwyd a ddylid fod wedi derbyn archwiliad erbyn diwedd Hydref wedi derbyn archwiliad.

6 o'r ymweliadau Iechyd Anifeiliaid yn hwyr yn ôl y siart ond rhai o'r busnesau risg uchel ddim yn 'due' tan Chw 3 & 4. Nodir hefyd bod 1 aelod o staff i ffwrdd yn sâl hir dymor yn dilyn triniaeth ac 1 aelod arall wedi bod ar ddyletswyddau ysgafn am gyfnod oherwydd cyflwr meddygol. Trefniadau wedi eu addasu er mwyn cwblhau'r rhaglen.

## G3: Canran y busnesau Prosesau Llygredd Awyr sydd wedi cael arolygiad yn ystod y flwyddyn (01/04/2018 - 31/10/2018)

Canran y busnesau Prosesau Llygredd Awyr sydd wedi cael arolygiad




Nifer o fusnesau wedi cael arolygiad

9


Nifer o fusnesau lle mae'r arolygiad yn hwyr

5

Nifer o fusnesau angen arolygiad


22

Nifer o fusnesau Prosesau Llygredd Awyr sydd wedi cael arolygiad yn ystod y flwyddyn




**Sylwadau**

Mae anhawsterau cofnodi wedi bod, ond mae’r cofnodion  wedi cael eu diweddaru o ran yr  archwiliadau sydd yn ymddangos  i fod yn hwyr a sydd erbyn hyn wedi ei cyflawni. Roedd un busnes prosesu wedi dod i ben a’r busnes heb ddiweddaru’r Gwasanaeth am hyn. Mae’r targed mewn perthynas a’r rhaglen yn un blynyddol ac ar hyn o bryd credir y bydd y rhaglen flynyddol yn cael ei chwblhau.





## Sylwadau

138 o ymweliadau ar y rhaglen gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd flwyddyn yma. Trefn unigryw gan yr ASB o ran gorfodaeth 'feed' - ar gychwyn bob blwyddyn ariannol mae'r ASB yn gofyn i bob rhanbarth adrodd ar y niferoedd o eiddo sy'n 'due' ymweliad 'feed' ar eu bas data (Prif Swyddog o Wrecsam sy'n arwain ar ran rhanbarth Gogledd Cymru). Y Prif Swyddog wedyn yn dyrannu'r ymweliadau sy'n 'due' rhwng y 6 Awdurdod yn seiliedig ar risg a math o eiddo e.e. Gwneuthurwyr A01, Mixer R10, Cynhyrchwyr Bwydydd Anifeiliaid Anwes R6, Ffermydd (livestock) R13 ayb gyda'r awdurdod perthnasol yn cael taliad penodedig am bob archwiliad (yn ddibynnol ar faint o arian oedd gan yr ASB ar gyfer cyflawni gorfodaeth 'feed' yng Nghymru).

Y rhaglen' yn ôl y siart wedi ei rannu i adlewyrchu'r ffaith bod y maes yn dymhorol gyda'r mwyafrif o archwiliadau yn cael eu cynnal dros y gaeaf – o flaen targed ar hyn o bryd. Oherwydd adnoddau, mae'r nifer o archwiliadau sy'n ddisgwyliedig fel rhan o'r cynllun ASB yn dipyn is na'r ffigwr cyflawn o eiddo sy'n 'due' archwiliad yng Ngwynedd gan fod oddeutu 2000 o ffermydd yng Ngwynedd. Yr archwiliadau yn cael eu blaenoriaethu o ran y risg (Risg Sgôr 1 = bob blwyddyn, Risg Sgôr 2 =bob 2 flynedd ayb) a'r math o eiddo (R10, R6 ayb) yn ogystal ag unrhyw wybodaeth (intel) arall a dderbyniwyd.

Trefniadau mewn lle i gwblhau'r ymweliadau a ddyrennir gan yr ASB cyn diwedd y flwyddyn.

## G5 Canran o Droseddau a gafodd eu datrys drwy ymyrraeth gan Warchod y Cyhoedd (01/04/2018 - 31/10/2018)





Nifer wedi eu datrys

**403**

Nifer wedi eu darganfod

**475**





**Sylwadau**

O ran Safonau Masnach (Industry) – 9 torcryfaith o'r 25 bellach wedi eu datrys – cofnodion wedi eu diweddaru ac yn cynnwys achosion yr aelod staff sydd wedi bod i ffwrdd yn sâl. O ran Safonau Masnach (Consumer) – o'r 20 – 3 o'r achosion 'Trade Marks' bellach wedi eu cyfeirio at yr IPO (Intellectual Property Office) gan eu bod yn cynnal archwiliadau manwl ar y diffynnydd. Y 2 'drosedd' a oedd yn ymwneud ac un busnes penodol yn parhau i fod yn agored ar y sustem ers peth amser - disgwyl canlyniad achos Rent Smart Wales unrhyw funud. Gweddill yr achosion sydd dal yn agored o ran y ddau dîm yn cynnwys achosion sydd wedi eu derbyn yn ystod y cyfnod, achosion mwy cymhleth sy'n cynnwys hel ac asesu tystiolaeth ac wrth gwrs achosion sydd yn diweddu fyny yn y llys.
O'r 9 torcyfraith sylweddol a nodir sydd dal yn agored gan yr Uned Lles (Food safety Team a Health and Safety Team) mae 4 yn dal i dderbyn sylw swyddogion. Mae'r 5 arall wedi eu datrys ond fo'r cofnodion heb eu diweddaru. Bydd y cofnodion hyn yn cael ei diweddaru mor fuan ag sy'n bosib.


O ran trwyddedu – mae gwelliant sylweddol wedi bod yn y nifer o droseddau a gofnodir. Mae'r rhan fwyaf o'r 16 achos sydd yn ymddangos uchod heb ei datrus oherwydd fod ymchwiliad yn parhau; neu lle mae trwyddedau gyrrwyr tacsi wedi eu hatal oherwydd ymchwiliad Heddlu sydd heb ddod i ben. Mae dau gofnod angen eu diweddaru.

G6 Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau Hylendid Bwyd




## Sylwadau

Mae nifer y sefydliadau bwyd sydd yn cyrraedd safon hylendid bwyd boddhaol neu uwch yn parhau i fod yn uchel gyda dim ond 1.1% yn methu, sef 21 busnes.





## Sylwadau

Yn dilyn adolygiad Ffordd Gwynedd fe osodwyd mesuryddion newydd ar gyfer trwyddedu. Mae'r mesuryddion newydd ac yn benodol y mesur uchod yn canolbwyntio ar brofiad y cwsmer o'r cyswllt cyntaf. Felly, mae cyfartaledd y dyddiau a gymerir i benderfynu ceisiadau tacsi yn cael eu cyfri o'r achlysur cyntaf y daw cwsmer atom i wneud cais. Nid yw cais yn gallu cael ei brosesu a'i benderfynu tan mae yn gyflawn.   O ran ceisiadau am drwyddedau gyrwyr,  dau ffactor sydd yn effeithio yn sylweddol ar yr amser - sef yr amser mae'r Gwasanaeth DBS cenedlaethol yn ei gymryd i brosesu tystysgrif DBS a'r amser mae'n cymryd i drefnu Is Bwyllgor Trwyddedu i gael gwrandawiad ar y cais (gall hyn yn ei hun ychwanegu 4 wythnos).

Ers yr adroddiad perfformiad diwethaf mae'r amser a gymerir i brosesu ceisiadau gyrwyr wedi gostwng yn gyson ers mis Mai, gyda cais yn cymryd cyfartaledd o 47.3 diwrnod ym mis Mai, ac yn disgyn yn gyson i 28.47 ym mis Hydref. Fe welir o'r siart cap ein bod wastad gyda sefyllfa o amrywiad tu hwnt i'r terfyn Rheoli uchaf (UCL) sydd ddim yn gallu cael ei reoli yn effeithiol oherwydd y ffactorau sydd wedi eu nodi. Dengys ein ffigyrau fod DBS yn cymeryd cyfartaledd o  rhwng 7 ac 8  wythnos i gael ei gyflwyno i ni , gyda rhai tystysgrifau wedi cymeryd i fyny i 112 diwrnod. Yn unol â rheoliadau diweddar diogelu data, mae'r dadleniad DBS bellach yn cael ei gyrru yn syth yn ôl i'r ymgeisydd, sydd yn creu oediad pellach o ran cyflwyno cais cyflawn. Gan fod y cyfansoddiad a'r hawliau dirprwyedig perthnasol yn golygu fod rhaid cyfeirio pob cais am drwydded gyrrwr sydd gyda chollfarnau i Is Bwyllgor; mae adolygiad o'r drefn angen digwydd mewn ymgynghoriad a'r Uned Gyfreithiol a'r Pwyllgor Trwyddedu.

## G8: Canran sefydliadau bwyd sydd wedi cael arolygiad yn unol a'r rhaglen Hylendid Bwyd




Nifer o sefydliadau bwyd wedi cael arolygiad

**529**


Nifer o sefydliadau lle mae'r arolygiad yn Hwyr

**95**

Nifer o sefydliadau angen arolygiad

**393**

Nifer o sefydliadau bwyd sydd wedi cael arolygiad yn ystod y flwyddyn





**Sylwadau**

Mae'r graff yn arddangos yr holl arolygiadau hylendid bwyd oedd wedi eu rhaglennu ar gyfer y cyfnod gan gynnwys unrhyw ôl groniad o archwiliadau sydd heb eu cwblhau. Gweler fod 529 o archwiliadau wedi eu cwblhau gyda'r targed yn 624.

Yn ddiweddar mae'r gwasanaeth wedi cymryd camau sylweddol i ddelio gyda diffyg capasiti sydd wedi bod dros y blynyddoedd diwethaf yn sgil toriadau a chynnydd mewn gofynion deddfwriaethol. Mae swyddog gwarchod y cyhoedd dros dro a benodwyd ym mis Gorffennaf bellach wedi ei phenodi i swydd barhaol yn dilyn ymddiswyddiad swyddog profiadol ym mis Hydref. Disgwylir y bydd yr unigolyn hwn yn medru cwblhau archwiliadau bwyd risg uchel wedi eistedd (a phasio) arholiadau ychwanegol ym mis Mai 2019. Yn ogystal, yn mis Tachwedd fe benodwyd 2 swyddog newydd fydd yn dechrau gweithio ddiwedd Mis Rhagfyr. Mae un yn swyddog pofiadol ddylid fo'n medru ymgymryd ar gwaith yn fuan wedi dechrau. Bydd angen i'r ail swyddog eistedd cwrs arbennigol am gyfnod o ddwy flynedd cyn y gellir ymgymryd a dyletswyddau llawn y swydd. Mae 31 archwiliad hylendid oedd wedi eu rhaglennu yn ystod 2017-18 dal angen eu cwblhau (7 eiddo categori risg D a 24 categori risg E). Mae'r archwiliadau hyn wedi eu cynnwys yn rhestrau archwiliadau eleni swyddogion.

G9: Canran y sefydliadau bwyd sydd wedi cael arolygiad yn unol a'r rhaglen Safonau Bwyd




Nifer o sefydliadau bwyd wedi cael arolygiad


236

Nifer o sefydliadau lle mae'r arolygiad yn Hwyr

187

Nifer o sefydliadau angen arolygiad

157





## Sylwadau

Mae’r graff yn arddangos yr holl arolygiadau safonau bwyd oedd wedi ei rhaglennu ar gyfer y cyfnod gan gynnwys ôl groniad o archwiliadau a dylid fod wedi eu cwblhau cyn hyn. Mae 236 archwiliad allan o 423 wedi eu cwblhau.


Mae’r ôl-groniad yn bennaf oherwydd diffyg adnodd i gynnal archwiliadau. Mae’r gwasanaeth wedi mabwysiadu trefn lle fo swyddogion sy’n cynnal archwiliadau hylendid bwyd hefyd yn cynnal archwiliadau safonau bwyd yr un pryd. Bydd y drefn yn cael ei ddilyn lle fo archwiliad rhaglenedig safonau heb ei gynnal neu wedi ei restru ar gyfer ei gynnal oddi fewn y 12 mis wedi hynny. Mae rhai archwiliadau yn disgyn tu allan i’r drefn am gyfnod ac felly ar unrhyw adeg mae ôl groniad yn bodoli.

Yn yr adroddiad diwethaf nodwyd fod 192 o arolygiadau safonau bwyd a ddylid fod wedi eu cynnal erbyn 31/3/18 dal heb eu cwblhau. Bellach y ffigwr ydy 94 (35 eiddo categori risg B a 59 categori risg C). Yn ogystal, mae’r Gwasanaeth wedi annerch y diffyg adnodd drwy benodi dau swyddog newydd. Gweler y sylwadau dan fesurydd perfformiad G8.





Mae'r perfformiad wedi gwella yn ddiweddar oherwydd:

1. System TG newydd wedi hwyluso'r gwaith o gofnodi galwadau, anfon archebion a diweddaru cwsmeriaid.
2. Effaith defnyddio ein gweithwyr llaw cyflogedig (6.4 diwrnod ydi "end to end" eu galwadau hwy)
3. Treialu trefniadau talu anfonebau gwahanol - rhyddhau amser staff i ganolbwyntio ar y gwaith rheng faen.





Rydym yn parhau i ofyn am sgor allan o 10, a'r ymateb gan amlaf yw fod cwsmeriaid yn parhau yn hapus ond maent yn fwy bodlon awgrymu lle gallwn wella ein gwasanaeth os am gael marciau llawn. Mae'r rhan helaethaf o'r sylwadau yn cyfeirio at ddiffyg diweddaru yn ystod darn o waith. Mae llai o amser wedi bod ar gael gan ein swyddogion i ganolbwyntio ar ddiweddaru cwsmeriaid yn ddiweddar wrth iddynt roi sylw i geisio delio gyda galwadau Teleofal ac absenoldeb aelod o staff. Mae'n werth edrych ar y ddau fesurydd cynnal a chadw gyda'i gilydd - mae'r cyfartaledd nifer o ddyddiau i gau "job" yn lleihau ond y bodlonrwydd cwsmer ddim cystal. Mae'r data yn dangos fod y gwaith yn cael ei wneud ar amser ond fod llai o fodlonrwydd cwsmer oherwydd nad ydym yn gallu treulio cymaint o amser yn siarad gyda cwsmeriaid yn sgil y pwysau gwaith ddaw o'r galwadau Teleofal. Rydym wedi gallu defnyddio'r data yma i drafod y lefel adnodd gyda'r Adran Oedolion sydd wedi arwain at allu cynnwys cost aelod ychwanegol o staff yn yr achos busnes ar gyfer y gwasanaeth Teleofal.





Mae hwn yn fesurydd newydd sy'n edrych ar alwadau Teleofal sydd bellach yn dod drwy'r Ddesg Gymorth Eiddo yn dilyn trosglwyddo'r gwaith atom yn Ionawr. Gan ein bod wedi cael rhai misoedd i gynllunio'n prosesau gwaith cyn cychwyn ar y gwasanaeth hwn, rydym wedi gallu cydweithio'n agos gyda'n cwsmeriaid mewnol (Adran Oedolion) i sicrhau fod y drefn yn gweithio iddyn nhw a'u cleientaid allanol. Rydym yn falch felly fod yr adborth a geir yn ardderchog a bod y Gwithwyr Cymdeithasol yn gweld gwahaniaeth yn syth. O dan yr hen drefn roedd y cyfartaledd amser ar gyfer delio gyda galwadau oddeutu 53 diwrnod - mae'r drefn bellach wedi ei thrawsnewid a'r prosesau gwaith yn debyg i'r rhai cynnal a chadw.

**EIDDO 4 -**
**Canran adeiladau gyda systemau diogelwch cyflawn mewn lle.**




Mae'r perfformiad yn y maes yma wedi parhau'n sefydlog am bron i ddwy flynedd yn dilyn cyflwyno trefniadau gweithio newydd yn sgil ymarferiad Ffordd Gwynedd. Arweiniodd yr Ymarferiad at sefydlu lefel adnodd staff oedd yn hafal i'r llwyth gwaith. Dros y chwarter diwethaf mae aelod staff wedi bod yn absenol oherwydd salwch ac nid oes adnodd sbar o fewn yr uned i allu ymdopi a'i lwyth gwaith. Golyga hyn na allwn warantu fod yr adeiladu sydd heb eu harchwilio yn ddiogel ac felly rydym nawr wedi gorfod comisiynnu cwmni allanol i helu gyda'r galw na allwn ei gyfarch yn fewnol. Mewn rhai meysydd byddem yn gallu goddef dirywiad mewn perffomiad am gyfnod neu lewni'r bwlch gydag adnodd o uned arall. Yn achos y maes yma, nid yw'r arbenigedd ar gael mewn uned arall ac nid ydym o'r farn y byddai'n gyfrifol oedi ymhellach mewn maes risg uchel fel hwn.


**EIDDO 5**
**Canran bodlonrwydd cwsmeriaid Uned Difa Pla**




Mae'r Uned Difa Pla yn wasanaeth "masnachol" i'r cyhoedd ac felly mae'n hanfodol fod ein cwsmeriaid o'r farn eu bod yn cael gwasnaeth ardderchog am yr hyn mae'n nhw'n ei dalu. Rydym yn falch felly fod hwn yn faes lle rydym yn gyson yn cael adborth ardderchog gan ein cwsmeriaid . Fodd bynnag, cafwyd un ymateb nad oedd yn gwbl fodlon ym mis Medi. Er yn hapus iawn gyda'r ffordd y bu i'r swyddog ymdrin gyda nyth gwenyn mewn ty anedd, roedd y cwsmer wedi cael trafferth gan na fu i'w gais am wasanaeth drosglwyddo o'r system hunanwasanaeth at y Swyddog Difa Pla ac felly bu'n digwyl am rhai dyddiau cyn gorfod cysylltu am yr eildro. Mae'r dull cysylltu yn derbyn sylw gennym ar hyn o bryd. Hefyd, cafodd yr un cwsmer daflen driniaeth Saesneg er fod y swyddog wedi ysgrifennu'n Gymraeg arni!Mae taflenni Cymraeg ar gael gan y Swyddogion ond yn y dyfodol bydd taflenni dwyieithog ar gael er mwyn sicrhau nad oes camgymeriadau fel hyn yn digwydd.


**EIDDO 6**

**Adborth gan ddefnyddwyr adeiladau newydd, ddwy flynedd ar ôl agor (Sgôr cyfartalog allan o 10)**





Drwy ofyn i bawb am sgor allan o 10 rydym cael at y wybodaeth yma yn well. Er fod pawb dal yn "hapus" maent yn fodlon esbonio pam nad ydynt yn rhoi 10/10. Saith cynllun oedd yn cyrraedd y garreg filltir "dwy flynedd" y tro yma. Roedd pedwar yn fodlon rhoi marciau llawn . Roedd un o'r tri oedd yn weddill o'r farn fod y dosbarth newydd yn rhy fychan - mae pob dosbarth newydd o faint safonol ar draws y wlad! Roedd y ddau arall yn cyfeirio at oedi wrth ddelio gyda diffygion ar ddiwedd y gwaith. Rydym yn ymwybodol fod angen gwella ar yr agwedd yma gan ein bod yn dueddol o orffen un cynllun a rhoi ein holl sylw i'r cynllun nesaf. Ar adegau eraill mae'r diffygion yn cael sylw ond nid ydym yn egluro hyn yn ddigon da wrth yr ysgol newydd. Mae uno gyda'r Tim Moderneiddio wedi ein galluogi i wneud defnydd o'r swyddog sy'n parhau i weithio yn yr ardal ar ol i'r ysgol newydd agor er mwyn gwella'r cyfathrebu am y diffygion gyda phennaeth yr ysgol newydd.

## EIDDO 7
## Nifer o apeliadau i'r beirniad anibynnol sy'n cael eu caniatau





Ni fu apel i'r dyfarnwr ers mis Mawrth sy'n arwydd fod ein trefniadau gorfodaeth yn deg a chyson.





Sefydlwyd y mesurydd newydd hwn gan ein bod yn gwybod ers peth amser fod yr uned hon dan bwysau ac nad ydynt yn gallu ymdopi gyda'r llwyth gwaith sydd ganddynt, yn arbennig gan fod eu llwyth gwaith wedi cynyddu wrth i adrannau eraill geisio gwireddu eu cynlluniau arbedion. Bellach mae'r adnodd staff wedi ei gynyddu ac mae aelod allweddol wedi dychwelyd ar ol cyfnod mamolaeth. Mae'r mesurydd yn dangos ein bod yn symud tua'r cyfeiriad cywir. Allan o'r 54 cwsmer a holwyd roedd 6 yn anfodlon. Dau fath o sylw sydd gan bob un ohonynt - materion yn cymryd gormod o amser i'w datrys neu ddiffyg gwybodaeth/diweddaru yn ystod achos . Nid oes yr un gwyn am ansawdd y gwaith a gwblheir na'r canlyniadau, ac mae rhai o'r rhai sy'n anfodlon hefyd yn pwysleisio hyn yn ei sylwadau. Rydym yn ffyddiog y byddwn yn parhau i weld gwelliant wrth i'r staff newydd ddatblygu. Rydym hefyd wedi bod yn edrych ar y gwahanol feysydd gwaith sydd wedi eu cartrefu o fewn yr uned hon ac wedi dod i'r casgliad fod gormod o bethau gwahanol wedi eu lleoli o fewn un uned waith. Gan y bydd gweithgaredd newydd arall angen ei gartrefu yma yn y dyfodol agos, rydym wedi dod i'r casgliad fod angen sefydlu Uned waith arwahan ar gyfer rhai materion. Mae hyn eisoes ar waith.

**EIDDO 10 -**
**Canran gostyngiad mewn allyriadau carbon o adeiladau hyd yma yn ystod y flwyddyn**




Hyd yma elenni mae'r cyfanswm allyriadau 2.4% yn uwch na'r un adeg y llynnedd. Mae'r ffaith y bu'r tywydd dros y gaeaf 25% yn oerach na'r flwyddyn flaenorol wedi cael cryn effaith ar y defnydd nwy. Rhaid cofio mai data am ganran o'r allyriadau yn unig sydd gennym ac felly gall y sefyllfa ar gyfer yr holl ystad erbyn diwedd y flwyddyn fod yn wahanol. Er hynny, rydym bellach o fewn deufis i ddiwedd y flwyddyn ac felly mae risg y bydd ein na welwn ostyngiad yn ein allyriadau elenni am y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer. Bydd canlyniad y flwyddyn yn hysbys erbyn Ionawr.






**Sylwadau**

*CG55 – mae 14 allan o 15 o'r safleoedd wedi'u cwblhau. Cerbydau yn parcio ar y safle yn gwneud hi'n anodd cwblhau'r gwaith marcio ffyrdd.

**CG59 – roedd gwrthwynebiad i'r gorchymyn wedi golygu fod angen cefnogaeth y Pwyllgor Cynllunio cyn ei selio . Yn dilyn derbyn eu cefnogaeth ar 26 Tachwedd 2018, anfonwyd y gorchymyn yn i'r Adran Gyfreithiol ar gyfer cael ei selio.

***CG64 – gorchymyn arbrofol


| Rhif y Gorchymyn | Costau Hysbysebion yn y Wasg |
|---|---|
| CG52 | Gwybodaeth ddim ar gael |
| CG54 | **£749.92** (hysbysiad 1af) |
| CG55 | **£789.15** (hysbysiad 1af)<br>**£841.50** (2ail hysbysiad) |
| CG56 | **£482.77** (hysbysiad 1af) |
| CG57 | **£498.26** (hysbysiad 1af) |
| CG58 | Gwybodaeth ddim ar gael |
| CG59 | **£338.98** (hysbysiad 1af) |
| CG60 | Gwybodaeth ddim ar gael |
| CG61 | Gwybodaeth ddim ar gael |
| CG62 | Gwybodaeth ddim ar gael |
| CG63 | **£355.72** (hysbysiad 1af) |
| CG64 | **£727.65** |
| CG65 | Gwybodaeth ddim ar gael |
| CG66 | Gwybodaeth ddim ar gael |
| CG67 | Gwybodaeth ddim ar gael |
| CG68 | Gwybodaeth ddim ar gael |

| Dyddiad | Gwasanaeth | Lleoliad | Taith Bws | Ydych yn hapus gyda'r gwasanaeth? | Os na, Pam? | Beth ydych wedi gwneud am y peth? | Masnachol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 05/07/2018 | Cludiant | Clynnog Fawr | Bws 12 - Caernarfon i Pwllheli | Nac ydw | I catch this bus every Sunday home after work, it's always been reliable. Well yesterday was the first day of a new company Huws Buses to take over thought nothing of it and continued with my journey and what a journey that turned out to be! First of all the whole bus shook the seats, windows and floor. You couldn't even hear yourself think let alone talk to the person next to you. Then to top it off we broke down in Clynnog but instead of arranging a more suitable bus we carried on to trevor where low and behold upon leaving the village the engine began clanking even more than usual hot steam came billowing out and under the back seat where two passengers were sitting. Both were lucky not to have been hurt. All the passengers were worried the driver had no clue what to do or what was going on. A mini bus was sent to take us home, it stank of fags and was in a little better state of repair than the bus. I use this service Weekley and I expect to be on transport that is safe and reliabe not just the lowest bid. How they passed an mot I do not know. I would like to ask you to look into my concerns please after receiving years of good quality service on the number 12 route between pwllheli and caernarfon my experience on sunday has left me shocked and concerned. | Ymateb y cwmni i'r e-bostl:- "We experienced some difficulties with the water in the bus's engine due to the unusually hot weather, but all services ran during the day as normal. The bus in question has been running on our services from the 3rd of January with no complaints regarding its condition to date. - The company wishes to apologise for the inconvenience that it may have caused you and hopes that your experience of travelling on the No. 12 service". will be better in future. | Na |
| 05/07/2018 | Cludiant | Abererch | Bws 3 - Pwllheli i Blaenau Ffestiniog | Nac ydw | I live in the centre of Abererch village and, like many others here, depend on the local number 3 Pwllheli to Porthmadog bus service for transport. No Arriva buses are currently coming through the village as the road had recently been resurfaced and was temporarily closed. This work was completed except for road markings on Sunday. The Caelloi bus company are coming through but only run a few buses each day whereas Arriva have a service every half hour from early morning until late evening. Because of this, and each company not accepting the others tickets, many people depend on Arriva to get to and from work, shopping, medical appointments and so forth. | Wedi cysylltu ag Arriva - ac roeddynt yn cadarnhau bod y bysus yn mynd trwy Abererch bellach. | Ia |
| 05/07/2018 | Cludiant | Waunfawr | - | Nac ydw | No Sunday bus travel from Waunfawr means stuck in the village on a weekend. Buses from Rhyd ddu but can't get there.. locked out on a Sunday! Please comsider if there are any opfions | Wedi ymateb bod y gwasanaeth yma wedi torri 5 mlynedd yn ôl a nid oedd arian ar hyn o bryd i rhoi y gwasanaeth yn ol. - Bellach mae Amserlen Gaeaf Sherpa'r Wyddfa yn teithio trwy Waunfawr ar ddydd Sul. | Na |
| 19/07/2018 | Cludiant | Bangor | Bws 85 - Bangor i Llanberis | Nac ydw | Once again the 85 Arriva bus was late. The 9.11 from Ysbyty Gwynedd to Llanberis. This time 20 mins. Over the last 10 days every single bus I've had to get has either been late or not turned up at all. This is just not good enough. I rely on your so called service to get to and from work and the stress caused by being continually late for work or late home to look after my 2 year old son is appalling! Please explain to me why the first buses of the day are so late every single time! It is just not good enough! | Wedi cysylltu ag Arriva - Wedi derbyn copi o'r "tracker details" - ar y diwrnod yma bws yn 14 munud yn hwyr - golau wedi torri. - Yn ystod y 10 diwrnod cynt amser y mwyn yn dderbyniol (o fewn y 1 munud yn fuan a 5 munud yn hwyr a ganiateir). | Na |
| 04/09/2018 | Cludiant | Pen y Pass | Sherpa'r Wyddfa | Nac ydw | I waited on the Llanberis by pass today for the 11.00bus to PYP -which failed to appear. I was told by a driver that not all buses go up the bypass some turn around at the interchange. Can we have timtables on the temp, bus stops on the bypass please. It's shambolic at the moment. | Ymateb i'r e-bost - I do apologise for the inconvenience caused to yourself today. I will follow up with the contractors to ensure that they display the timetable on the temporary bus stops by the end of the week. | Na |
| Medi 2018 | Cludiant | Llanberis / Llanrug | Bws 88 - Llanberis i Gaernarfon | Nac ydw | Nifer fawr o e-byst a galwadau ffôn am y newid yn y gwasanaeth bws 88 - pobl yn bryderys yn gwybod bod Arriva yn darfod ond dim yn siwr pwy oedd y cwmni newydd. | Cerbydau Gwynfor wedi ennill y trender a bellach yn rhedeg y gwasnaeth yma. | Na |
| 24/09/20218 | Cludiant | Llanrug | Bws 86 - Llanrug i Fangor | Nac ydw | 86 from Llanrug to Coleg Menai, bus full, no seats and too many standing. I pay £120 for college pass bus is not safe to travel | Wedi cynghori i ddefnyddio y Bws Coleg 457 | Na |
| 19/09/2018 | Cludiant | Caernarfon | Bws T2 i Bangor | Nac ydw | Bws yn llawn yn cyrraedd Gaernarfon - dim yn gallu pigo fyny o Bontnewydd ymlaen. | | Na |
| 25/09/2018 | Cludiant | Caernarfon | Bws 5A - Nasareth i Bangor | Nac ydw | Bws yn llawn yn cyrraedd Gaernarfon - wedi mynd heibio teithwyr yn Dinas ymlaen. | | Na |
| 30/09/2018 | Cludiant | Llanberis | Bws 88 - Llanberis i Gaernarfon | Ydw | Just wanted to give praise to the new Gwynfor coaches 88 service. The drivers are polite and courteous and I feel very safe when on the bus. Special mention to Bobby who is excellent especially with elderly passengers. | | Na |

Nac ydw
Ydw

| MANYLION AM Y GWASANAETH | | MANYLION MESURAU | | | | PERFFORMIAD LLYNEDD | UCHELGAIS ELENI | Cyfnod 2 - Gorffennaf - Medi 2018 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Uned** | **Haen** | **Cyfeirnod** | **Mesur** | **Uned Mesurydd** | **Amlder Adrodd** | **2017-2018** | **2017-2018** | **2018-2019** | **2018-2019** | **Sylwadau** |
| Cludiant Integredig | 1 | Cludiant01 | Canran o siwrnai cludiant cyhoeddus (bysus) sydd wedi eu monitro sydd o fewn y terfynau dibynadwyedd (amseroldeb bysus)<br>**Canran o siwrneiau cludiant cyhoeddus sydd yn brydlon** | 100% | Pob 3 mis | | 95% | **88%** | | Mae gennym 36 gwasanaeth a bu i ni fonitro 10 ohonynt (rhai gwasanaethau mwy nag unwaith) yn ystod y cyfnod yma. Nid ydym yn monitro gwasanaethau rhifau 1 gan bod Gwynfor's Coaches wedi cymryd drosodd amserlenni Huw's Coaches mewn argyfwng a doedd yr amseroedd ddim yn bosib i'w cynnal. Y cwmni yn paratoi amserlenni newydd o fis Rhagfyr ymlaen. |
| Cludiant Integredig | 1 | Cludiant02 | Nifer o gwynion a dderbyniwyd am wasanaethau cludiant cyhoeddus dan gontract i'r Cyngor (nifer yn hytrach na canran) | Nifer | Pob 3 mis | | | **9** | | Yn dilyn penderfyniad y Comisiynydd Traffic i ddiddymu trwydded Cerbydau Huw, 31 Awst 2018 roedd nifer o'r cwynion yn ymwneud a gorlwytho ar y bysiau oedd ar ôl. Cawsom gwynion am wasanaethau Arriva yn ochrau Llanberis ddim yn troi fyny neu'n methu rhai safleoedd bws. Rhoddodd y cwmni'r contract i fyny yn ystod mis Medi oherwydd diffyg defnydd o'r gwasanaeth. |
| Cludiant Integredig | 1 | Cludiant03 | Nifer o gwynion a dderbyniwyd am wasanaethau cludiant cyhoeddus masnachol eu natur (nifer yn hytrach na canran) | Nifer | Pob 3 mis | | | **1** | | Bws Gwasanaeth 3 Arriva ddim yn mynd heibio pentref Abererch gan fod y ffordd wedi bod ar gau am gyfnod i hwyluso gwaith ail-wynebu'r ffordd gan y Cyngor. Ni gysylltodd neb a'r cwmni i'w hysbysu fod y ffordd nawr ar agor. |
| Diolgelwch Ffyrdd | 1 | DFF1 | Canran o fynychwyr sydd wedi dysgu bod yn fwy diogel ar y ffyrdd o ganlyniad i'r wers/ hyfforddiant | | Pob 3 mis | | | | | Yn ystod y cyfnod, holwyd 773 o gwsmeriaid a gymerodd rhan yn wahanol sesiynau diogelwch ffyrdd. Mae crynodeb o'u hymatebion fel a ganlyn: Q1 Beth oeddech yn feddwl o'r sesiwn = **96.25%** (hyn oherwydd problemau TG mewn 1 ysgol); Q2 *Ddim yn berthnasol;* Q3 Beth oedd eich barn am yr hwylusydd = **100%**; Q4 Ydych yn credu fod y cynnwys yn ogystal â'r negeseuon allweddol o fewn y sesiwn o unrhyw fudd i'r bobl ifanc = **100%**<br>**Pass Plus Cymru** - Cydweithio wedi bod efo'r colegau a'r Brifysgol drwy gael stondin a dosbarthu gwybodaeth am Pass Plus Cymru; effaith alcohol a chyffuriau ayb yn ystod eu hwythnos "Freshers" a "Seredipity". O ganlyniad mae'r Uned wedi gorfod cynnal 3 sesiwn ychwanegol ar drafodaeth Pass Plus Cymru er mwyn ymgymhwyso'r myfyrwyr. Mae'r Uned hefyd wedi bod yn cydweithio efo'r Ysgolion Uwchradd drwy gynnal gwersi diogelwch ffyrdd i flwyddyn 12 a13 o'r enw "Too Young to Die", sy'n son am effaith mae gwrthdrawiadau yn cael ar fywydau ayb. Yn y sesiynau yma mae'r bobl ifanc yn cael cyfle i ddefnyddio gogls cyffuriau ac alcohol, yn ogystal â defnyddio gogls "Virtual Reality". Mae trefniadau ar y gweill hefyd i'r Uned fynychu noson rhieni ag athrawon y 6ed er mwyn hybu Pass Plus Cymru. **Seiclo** - Mae'r sesiynau yma yn parhau i fod yn boblogaidd ac o ganlyniad byddai'r Uned yn hoffi hyfforddi dau Swyddog newydd. **Kerbcraft** – Swyddog newydd wedi ei phenodi ac yn cychwyn ei swydd ar y 10fed o Ragfyr 2018. **Diogelwch Ffyrdd Cyffredino**l - Galw mawr wedi bod am y gwahanol weithgareddau gan ysgolion ar draws Gwynedd. Taflen newydd wedi cael ei chreu a'i dosbarthu i'r rhieni o'r enw "Gwella diogelwch y ffyrdd y tu allan i'r ysgol". Pecynnau wedi eu creu ar gyfer dosbarthu i SIDYFF sy'n cael ei enwebu gan yr ysgolion cynradd. Amryw o ymgyrchoedd 20mya tu allan i'r ysgolion wedi cael eu cynnal ers mis Medi. **Ymgyrchoedd Cenedlaethol** - Tri safle wedi cael eu dewis ar gyfer hybu gwrth yfed / cyffuriau a gyrru yn ystod mis Rhagfyr. Yr Uned wedi hybu ymgyrch "Be Bright Be See" drwy ddosbarthu gwybodaeth a drwy gynnal gweithdy yn y llyfrgell yn ystod y gwyliau. |

# Siart i ddangos prydlondeb bysiau Gorffennaf i Medi 2018



# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 15fed o Ionawr 2019 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd |
| **Pwrpas:** | Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Gareth Griffith |
| **Swyddog Cyswllt:** | Dilwyn Williams, Prif Weithredwr |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1. Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2. Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r Timau Rheoli oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Pwyllgorau Craffu perthnasol.

1.3. Ar y cyfan, rwy'n fodlon gyda pherfformiad y mesurau yr wyf yn gyfrifol amdanynt.

2. **Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

3. **Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

3.1. Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

4. **PERFFORMIAD**

**Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol**

4.1 Mae cynnal amgylchedd lleol o safon uchel ac edrychiad strydoedd a mannau cyhoeddus yn bwysig i drigolion Gwynedd. Gwaith yr uned **Gwasanaethau Stryd** yw cadw ein strydoedd yn lan a thaclus a cheir nifer o fesurau sy'n edrych ar ba mor dda y maent yn gwneud hyn. Mae perfformiad y **Mesur o Lendid ac Edrychiad Strydoedd (Mesur STS/005a)** hyd yma eleni yn 74.1% gan ddangos gwelliant ar berfformiad diwedd blwyddyn 2017/18 (71.95%). Mae'r mesurydd PAM/010 yn mesur y canran o strydoedd sydd â safon B, B+ ac A allan o'r un sampl. Fel y gwelir mae ein sgôr yn 98.5% sydd yn welliant sylweddol ar y ffigwr o 94.1% a adroddwyd ar gyfer 2017/18. Mae hwn yn un o'r ffigyrau sydd yn cael eu hadrodd arnynt yn genedlaethol (lle roeddem yn y 14eg safle ar draws Cymru) ond mae'r dangosyddion yma yn gallu amrywio o flwyddyn i flwyddyn gan bod y sampl a'r hap.

4.2 PAM/011 canran tipio anghyfreithlon a gliriwyd o fewn 5 diwrnod. Yn flaenorol roeddem yn mesur ein perfformiad ar sail os oeddem wedi cwblhau'r gwaith o fewn 5 diwrnod gwaith o dderbyn y cais. Erbyn hyn mae'r mesur wedi newid ac be sydd yn ofynnol adrodd arno bellach ydyw'r cyfartaledd amser sydd wedi ei gymeryd i glirio'r eitemau o dderbyn gwybodaeth amdano. Yn unol adroddir hyn yn erbyn y diffiniad newydd cyfeirnod (PAM/035) ac mae ein perfformiad yn dod allan ar gyfer y cyfnod gyfredol yma yn 1.76 diwrnod. Mae'r Adran yn gweld hwn yn berfformiad eithaf da ac un gellir ei ddefnyddio fel gwaelodlin.

4.3 Mae'r **Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu** yn gyfrifol am ymdrin â gwastraff mewn modd cynaliadwy. Rwy'n fodlon gyda pherfformiad y mwyafrif o'r mesurau ar gyfer y gwasanaeth hwn ond byddwn yn tynnu eich sylw at y pwyntiau canlynol.

4.4 Nodir bod y lefelau **Canran y gwastraff trefol a gesglir gan yr Awdurdod Lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio (Mesur WMT/009)** wedi gostwng o 64.5% yn y cyfnod Ebrill i Orffennaf 2018/19, i 63.19% ar gyfer y cyfnod o Ebrill i Hydref 2018/19. Gellir priodoli'r gostyngiad hwn i'r ffaith bod lai o wastraff gardd yn cael ei anfon i'w drin o ganlyniad i'r trefniadau i dalu am y gwasanaeth gwastraff gardd. Fodd bynnag, mae'r perfformiad presennol yn cynrychioli cynnydd a'i gymharu â 59.59% ar gyfer yr un cyfnod yn 2017/18.

4.5 Mae perfformiad y mesur **Canran y gwastraff trefol a anfonir i dirlenwi (WMT 004)** yn is eleni yn y cyfnod o Ebrill i Hydref, sef 17.98% o'i gymharu â 24.33% ar gyfer flwyddyn 2017/18. Gellir priodoli'r gwelliant hwn i'r ffaith fod mwy o wastraff bwrdeistrefol wedi ei drin drwy drefn llosgi ac o ganlyniad ddim wedi'i anfon i dirlenwi.

4.6 Mae'n bwysig bod busnesau a thrigolion Gwynedd yn medru symud yn rhwydd a diogel o fewn y Sir a nod y Gwasanaeth Priffyrdd yw cyflawni hynny gan geisio cynnal safon ein ffyrdd. Yn flynyddol y caiff y mesurau ar safon y ffyrdd eu mesur ac mae perfformiad 2018/19 hyd yma ar gyfer **Canran prif ffyrdd dosbarth A (Mesur THS/011a), Chanran prif ffyrdd dosbarth B (Mesur THS/011b) a Chanran ffyrdd dosbarth C (Mesur THS/001c) sydd mewn cyflwr gwael.** Gweler y tabl amgaeedig. Mae canran ein ffyrdd dosbarth C sydd mewn cyflwr gwael wedi gwaethygu gan ein gweld bellach ar 14.5%. Roedd ein ffigwr yn 17/18 o 14.1% yn welliant ar ffigwr y flwyddyn flaenorol ond yn parhau i'n cadw yn 18fed safle yng Nghymru. Arian yw'r ateb i hyn wrth gwrs – pe byddem yn gallu gwario mwy ar ein ffyrdd byddai modd gwella eu cyflwr. Roedd y ffigyrau cymhariaethau cenedlaethol ar gyfer 2017/18 yn dangos fod cyfwr cymharol ein ffyrdd dosbarth A wedi gwella o'r 12fed safle i'r 9fed safle a ffyrdd Dosbarth B wedi gwella o'r 9fed safle i'r 7fed safle.

4.7 Mae angen mesur ar gyfer ein ffyrdd di-ddosbarth ac, rwyf wedi trafod gyda'r Adran y posibilrwydd o gael mesur ar gyfer y ffyrdd yma gan nad yw'r ffyrdd yn rhan o'r mesurau cenedlaethol ond gan fod cynifer o ffyrdd y Sir yn rai di-ddosbarth mae eu cyflwr am fod yn hanfodol bwysig i drigolion Gwynedd.

4.8 Nodwyd fod perfformiad Mesur THS/009 sef y **nifer o ddyddiau a gymerwyd ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn i atgyweirio holl ddiffygion ar lampau stryd** yn 2.5 diwrnod hyd yma ar gyfer 2018/19 sy'n welliant o'i gymharu â 2.77 diwrnod ar gyfer blwyddyn 2017/18.

4.9 Nodwyd fod cynllun ar waith ar gyfer newid ein goleuadau stryd ac arwyddion i dechnoleg LED. Nodwyd fod y Cabinet wedi rhoi sêl bendith i dderbyn benthyciad o £1.4 miliwn o Gronfa Twf Gwyrdd Llywodraeth Cymru i newid y 7,778 o oleuadau stryd sy'n weddill i LED a bydd y gwaith yma yn cychwyn yn Ebrill 2019. Mae'r cynllun "arbed" presennol yn mynd ymlaen yn dderbyniol.

## 5. DIWEDDARIAD AR BROSIECTAU

5.1 Nodir yn yr adroddiad diwethaf bod rhaglen sylweddol ar waith ar gyfer **newid ein goleuadau stryd ac arwyddion i dechnoleg LED**. Yn ystod 2015/16 newidiwyd 1,709 o unedau golau stryd ac arwyddion i LED gyda 3,418 ychwanegol yn cael ei newid yn 2016/17, a 3,472 yn 2017/18. Nodwyd bod y rhaglen gyfredol wedi'i chwblhau, gyda 1,680 o unedau wedi newid i LED. Yn sgil y newidiadau yma rhagwelir y byddwn yn arbed £260,000 y flwyddyn yn ogystal â gostyngiad mewn allyriadau carbon (414 Co2). Nodwyd bydd y rhaglen newydd 3 blynedd i newid gweddill y goleuadau i LED yn cychwyn yn Ebrill 2019 a byddwn yn arbed £185,000 yn ogystal â gostyngiad mewn allyriadau carbon (572 Co2).

5.2 Gyda chynllun **Cau 50 allan o 73 o Doiledau Cyhoeddus y Sir (Toriadau 51**), mae'r cynllun Partneriaethau gyda Chynghorau Cymuned a Thref wedi galluogi i'r rhan helaethaf o'r toiledau oedd o dan fygythiad barhau yn agored, yn llawn neu'n dymhorol. Yn unol â'r Ddeddf Iechyd 2018, Nodir fod angen llunio Strategaeth Toiledau Cyhoeddus erbyn Mai 2019 ac y bydd Strategaeth Drafft yn mynd gerbron Y Pwyllgor Craffu ym mis Chwefror 2019. Byddaf yn eich diweddaru ar hyn yn fy adroddiad nesaf.

## 6. Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd

6.1 Ar gyfer yr Adran yma mae un prif fesur wedi ei adnabod sef **Elw yn erbyn targed**. Nodir fod y sefyllfa yn gymharol gadarnhaol ar hyn o bryd gyda'r tafluniad y sefyllfa NET ddiweddaraf ar gyfer Gorffennaf i Hydref 2018/19 yn dangos elw o **£23,583**. Mae hyn yn cymharu gyda diffyg elw o £85,637 ar gyfer yr un cyfnod yn 2017/18 ac elw £35,246 yn Hydref 2016/17.

6.2 Mae'r **Uned Rheolaeth Adeiladu** yn gyfrifol am sicrhau bod gwaith adeiladu yn cwrdd â'r safonau adeiladu**.** Mae'r Uned wedi datblygu cyfres o fesurau sy'n mesur eu perfformiad ac wedi adrodd arnynt i'r cyfarfodydd herio perfformiad diwethaf. Dengys y wybodaeth ar gyfer **bodlonrwydd y cwsmer** (Mesur BC 1) ar gyfer Chwarter 2 2018 yn sgôr bodlonrwydd o 9.7 allan o 10, sy'n gyson hefo perfformiad 2017/18 o 9.6 allan o 10. Mae gwaith yn mynd ymlaen i sefydlu'r rheswm am unrhyw anfodlonrwydd.

6.3 Nodir bod y canran o **geisiadau cynlluniau llawn a gymeradwywyd** (Mesur BC 2) **neu gymeradwyo'n amodol** yn 94% ar gyfer Chwarter 2 2018.
Mae perfformiad y mesur hwn wedi parhau yn gymharol sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf, gyda pherfformiad 2016/17 yn 92.5% a pherfformiad 2017/18 yn 95.7%. Rwyf wedi gofyn i'r Rheolwr edrych ymhellach am y rhesymau nad oedd pawb yn gwbl fodlon a pham nad oedd ceisiadau wedi eu cymeradwyo er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa.

## 7. SEFYLLFA ARIANNOL / ARBEDION

### 7.1 Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol

#### 7.1.1 Cynlluniau 2015/16

Nodir yn yr adroddiad diwethaf bod un cynllun hanesyddol gwerth cyfanswm £40,000 heb ei wireddu **(PB19 Rhesymoli Banciau Ailgylchu).** Mae'r cynllun yma bellach wedi ei wireddu'n llawn.

#### 7.1.2 Cynlluniau 2016/17

Nodir fod holl arbedion a thoriadau 2016/17 wedi eu gwireddu.

#### 7.1.3 Cynlluniau 2017/18

Nodir yn yr adroddiad diwethaf bod her yn bodoli parthed goblygiadau gweithredu pedwar cynllun. Erbyn hyn, mae un o'r cynlluniau wedi ei gwireddu sef **PB10 Rhesymoli Cylchdeithiau Glanhau Strydoedd.**

Cytunwyd yng nghyfarfod Cabinet 11 Medi 2018 i ohirio'r gweithrediad ar **PB5 Canolfannau Ailgylchu.** Rhagwelir llithriad i 2019/20 ar gyfer **PB28 Lleihau Amlder Torri a Threfn Casglu Gwair Trefol, Lleihau Plannu Blodau a Lleihau Goramser,** a chynllun Toriadau51 **Cau 50 allan o 73 o Doiledau Cyhoeddus y Sir.**

**7.1.4 Cynlluniau 2018/19 ymlaen**

Nodir fod yr unig gynllun 2018/19 sef **PB33 Golau Stryd (LEDs)** wedi ei wireddu ar gyfer 2018/19 ac ni ragwelir problem gwireddu'r elfen 2019/20.

**7.2 <u>Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd</u>**

7.2.1 Mae'r Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd wedi gwireddu'r oll gynlluniau effeithlonrwydd a thoriadau ar gyfer 2016/17 a 2017/18.

## 8. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

8.1 Dim i'w nodi.

## 9. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

9.1 **Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb

**ii. Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Cadarnhaf fod y sylwadau yn rhannau 5, 6 a 7 o'r adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ddiweddaraf gwireddu'r arbedion sy'n gyfrifoldeb yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol a YGC.

Er bod cynllun PB19, Rhesymoli Banciau Ailgylchu, wedi ei wireddu'n llawn erbyn hyn, ni fyddwn yn gweld effaith blwyddyn lawn tan 2019/20. Yn ogystal, esboniwyd i'r Cabinet yn ei gyfarfod ar 11 Medi fod tri o gynlluniau amgen wedi cael eu hadnabod i lenwi'r bwlch yng nghynllun PB28 (Lleihau Amlder Torri Gwair); ni welir effaith blwyddyn lawn y tri cynllun amgen yma tan flwyddyn nesaf. Mae penderfyniadau tri Cyngor Cymuned i gadw Toiledau Cyhoeddus yn agored hefyd yn golygu llithriad £33k i 2019/20 cyn gwireddu'r arbedion llawn.

9.2 **Barn yr Aelod Lleol:**

9.2.1 Ddim yn fater lleol.

9.3 **Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

9.3.1 Dim i'w nodi.



---

**Atodiadau**

**Atodiad 1 –** Mesurau Perfformiad Priffyrdd & Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd

**Monitro Perfformiad Ebrill - Hydref 2018-19**

**Priffyrdd a Bwrdeistrefol**

| Gwasanaeth | Pennawd | Perfformiad Blynyddol 2013-14 | Perfformiad Blynyddol 2014-15 | Perfformiad Blynyddol 2015-16 | Perfformiad Blynyddol 2016-17 | Perfformiad Blynyddol 2017-18 | Perfformiad Blynyddol 2018-19 hyd yma | Symudiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Priffyrdd | THS/011a Canran prif ffyrdd (dosbarth A) sydd mewn cyflwr gwael | 4.40 | 3.50 | 3.1 | 3.5 | 3.2 | **3.3** |  |
| Priffyrdd | THS/011b  Canran ffyrdd (dosbarth B) sydd mewn cyflwr gwael | 4.70 | 3.70 | 3.4 | 3.9 | 3.8 | **3.8** |  |
| Priffyrdd | THS/011c Canran ffyrdd (dosbarth C) sydd mewn cyflwr gwael | 14.70 | 14.2 | 15.8 | 15.2 | 14.1 | **14.5** |  |
| Priffyrdd | THS/009 Nifer o ddyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn I atgyweirio holl ddiffygion ar lampau stryd | 2.70 | 3.50 | 2.76 | 2.52 | 2.77 | **2.5** |  |
| Priffyrdd | PB8 Canran o ddigwyddiadau o ddifrod peryglus i ffyrdd a phafinau atgyweirwyd neu wneuthpwyd yn ddiogel o fewn 24 awr i'r amser hysbyswyd. | 97.20 | 97.00 | 97.8 | 98 | 98 | **97** |  |
| Priffyrdd | PB9 Canran o'r archwiliadau diogelwch wedi eu cwblhau o fewn y cyfnod penodedig. | 98.30 | 98.00 | 99 | 99 | 99 | **99** |  |

| Gwasanaeth | Pennawd | Gwir 2014-15 | Gwir 2015-16 | Gwir 2016-17 | Gwir 2017-18 | Ebrill - Gorffennaf 2018-19 | Ebrill - Hydref 2018-19 | Symudiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Stryd | STS/005a Mesur o Lendid ac Edrychiad Strydoedd | 70.65 | 76.26 | 75.7 | 71.95 | 74.5 | 74.1 | ⇩ |
| Gwasanaethau Stryd | PAM/010 Canran y strydoedd sy'n lân | 94.3 | 96.7 | 96.55 | 94.10 | 98.04 | 98.5 | ⇧ |
| Gwasanaethau Stryd | PAM/035 Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon | Mesur Cenedlaethol Newydd | | | | 1.76 | 1.76 | ▭ |
| Gwasanaethau Stryd | PB15 Canran o'r graffiti/posteri sy'n ymguddio arwyddion traffig ac yn achosi peryglon, glanhawyd/cliriwyd o fewn 24 awr i'r amser hysbyswyd. | 100 | 100.00 | 100 | 100 | 74.5 | 100 | ▭ |
| Gwasanaethau Stryd | PB16 Canran o'r graffiti/posteri hiliol/tramgwyddol ar eiddo'r Cyngor, glanhawyd/cliriwyd o fewn 5 diwrnod gwaith i'r amser hysbyswyd. | 100 | 100.00 | 100 | 100 | 74.5 | 100 | ▭ |
| Gwastraff ac Ailgylchu | WMT/004 Canran y gwastraff trefol yrrwyd I'w dirlenwi | 43.33 | 34.34 | 30.62 | 24.33 | 14.43 | 17.98 | ⇧ |
| Gwastraff ac Ailgylchu | WMT/009 Canran y gwastraff trefol a gesglir gan yr Awdurdod Lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio, ailgylchu neu ei gompostio | 55.25 | 58.7 | 62.34 | 60.01 | 64.5 | 63.19 | ⇩ |
| Gwastraff ac Ailgylchu | PB51 Canran lefelau ailgylchu/compostio masnachol | 35.45 | 41.44 | 40.5 | 44.34 | 44% | 43% 48% | ⇩ |
| Gwastraff ac Ailgylchu | PB60 Uchafswm tunelledd gwastraff pydradwy a dirlenwir (Lwfans tirlenwi) | 18603 | 8147 | 16989 | 8103 | 448.41 | 3697 (46%) | ⇧ |

| Gwasanaeth | Pennawd | Perfformiad Blynyddol 2013-14 | Perfformiad Blynyddol 2014-15 | Perfformiad Blynyddol 2015-16 | Perfformiad Blynyddol 2016-17 | Perfformiad Blynyddol 2017-18 | Ebrill i Hydref 2018-19 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | Elw yn erbyn y targed | £120,135 | £21,256 | -£34,118 | £95,619 | £81,695 | £23,583 |

| Gwasanaeth | Pennawd | Perfformiad 2016-17 | Perfformiad 2017-18 | Perfformiad Ebrill - Hydref 2018-19 |
|---|---|---|---|---|
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | **BC-1** Arolwg bodlonrwydd y cwsmer, y ffigwr ar gyfartaledd a roddir gan gleientiaid am eu gwasanaeth rheolaeth adeiladu (ffigwr roddwyd allan o uchafswm | 9.3 | 9.6 | 9.7 |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | **BC-2** % y ceisiadau Rheolaeth Adeiladu cynlluniau llawn a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn | 92.5 | 95.7 | 94 |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | **BC-3** Nifer y dyddiau ar gyfartaledd a gymerwyd i wirio cais cynlluniau llawn (penderfyniad cyntaf) | 15.0 | 16.1 | 16.3 |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | **BC-4** Amser ymateb i ymdrin â strwythurau peryglus, ar ôl hysbysiad (oriau) | 1.8 | 2 | 2 |

Eitem 9

# BLAENRAGLEN WAITH

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Dyddiad trafodaeth yn y Cabinet** | **Eitemau i'w trafod** | **Aelod Cabinet** |
|---|---|---|
| **Chwarter 4 2018/19 –**<br>**1 Ionawr – 30 Mawrth** | | |
| **22 Ionawr** | Cais am adnoddau Cynllun Y Cyngor i Drawsnewid y Gyfundrefn Addysg | Cyng. Gareth Thomas |
| | Cyllideb Refeniw 2018/19 – Adolygiad diwedd Tachwedd | Cyng. Peredur Jenkins |
| | Rhaglen Gyfalaf 2018/19 – Adolygiad diwedd Tachwedd | Cyng. Peredur Jenkins |
| | Trosolwg Arbedion 2018/19: Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion | Cyng. Peredur Jenkins |
| | Cais am adnoddau i gynnal ymyrraeth Ffordd Gwynedd yn y Gwasanaeth Plant | Cyng. Dilwyn Morgan |
| | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol | Cyng. Nia Jeffreys |
| | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet dros Ddatblygu'r Economi | Cyng. Ioan Thomas |
| | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet dros Gyllid | Cyng. Peredur Jenkins |
| **29 Ionawr** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant | Cyng. W Gareth Roberts |
| | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet dros Blant a Cefnogi Teuluoedd | Cyng. Dilwyn Morgan |

| **Dyddiad trafodaeth yn y Cabinet** | **Eitemau i'w trafod** | **Aelod Cabinet** |
|---|---|---|
| | Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Addysg | Cyng. Gareth Thomas |
| | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet dros Dai, Diwylliant a Hamdden | Cyng. Craig ab Iago |
| **19 Chwefror** | Cyllideb 2019/20 a Strategaeth Ariannol 2019/20 – 2021/22 | Cyng. Peredur Jenkins |
| | Ad-Drefnu Ysgolion Dalgylch Bangor: Ysgol y Faenol | Cyng. Gareth Thomas |
| | Ail Strwythuro Canolfannau Iaith | Cyng. Gareth Thomas |
| **12 Mawrth** | | |
| **Chwarter 4 2018/19 –**<br>**1 Ionawr – 30 Mawrth**<br>**Dyddiad heb ei bennu** | | |
| | Polisi Mynediad | Cyng. Nia Jeffreys |
| | Cynllun Ffordd Gwynedd | Cyng. Nia Jeffreys |
| | Cynllun Prentisiaethau | Cyng. Nia Jeffreys |
| | CPO Llanbedr | Cyng. Dafydd Meurig |
| **Chwarter 1 2019/20 –**<br>**1 Ebrill – 30 Mehefin** | | |
| **2 Ebrill** | Adolygiad Rheolaethol | Cyng. Dyfrig Siencyn |
| **Chwarter 1 2019/20 –**<br>**1 Ebrill – 30 Mehefin**<br>**Dyddiad heb ei bennu** | | |